Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi 2023

## Canllawiau i Sefydliadau

Rhagfyr 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys

Cyflwyniad gan Dafydd Rhys, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru ....... 1

Rhan Un: Arian ar gyfer nawr ac yn y dyfodol ....... 3

1. Cyfnod o newid ....... 4
2. Seiliau'r Adolygiad Buddsoddi ....... 8
3. Egwyddorion yr Adolygiad Buddsoddi a ffactorau cydbwyso ....... 13
4. Ein hymrwymiad i chi ....... 21
5. Adolygiad Buddsoddi 2023 – gwybodaeth allweddol ....... 22
6. Adolygiad Buddsoddi 2023 – amserlen ....... 26

Rhan Dau: Ymgeisio ....... 27

1. Trosolwg or broses ....... 28
2. Cymhwystra ....... 29
3. Siarad â swyddog Cyngor y Celfyddydau ....... 31
4. Hygyrchedd ac ymgeisio mewn fformatau amgen ....... 31
5. Ymgeisio ....... 32
6. Cwestiynau'r cais ....... 34
7. Eich cynllun busnes ....... 49
8. Eich cyllideb ....... 50
9. Gwe-ddolenni i ddeunyddiau ategol ....... 51
10. Sut y byddwn yn asesu eich cais ....... 51
11. Hysbysiad o benderfyniadau ....... 53
12. Beth sy'n digwydd os yw eich cais yn llwyddiannus? ....... 54
13. Beth sy'n digwydd os nad yw eich cais yn llwyddiannus? ....... 56

Rhan Tri: Gwybodaeth hanfodol....57
1. Y rhestr wirio ymgeisio....58
2. Egluro rhai o'n termau a'n strwythurau....59
3. Gwneud apêl....60
4. Rhyddid gwybodaeth a diogelu data....61
5. Cadw mewn cysylltiad....62
6. Cysylltu â ni....63

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg os gofynnir amdani.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Cyflwyniad gan Dafydd Rhys, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru

Croeso i Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru 2023 sy'n gyfle i ni edrych ar sut rydym yn ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Yma rydym yn rhannu'r egwyddorion a'r prosesau y byddwn yn eu defnyddio i ariannu sefydliadau celfyddydol yng Nghymru. Bydd y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud yn ystod y broses hon yn llywio ein sector, nid yn unig am nawr ond am flynyddoedd lawer i ddod. Bydd yr effaith yn lleol ac yn atseinio'n fyd-eang.

Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi hwn yn dasg yr ydym wedi'i chymryd yn ysgafn ac rydym yn cynnig rhai newidiadau mawr. Dros y misoedd diwethaf rydym wedi ymgynghori ac wedi myfyrio. Nawr mae angen i ni weithredu. Mae'n gyfnod anodd i'r celfyddydau – fel ag y mae i'n cymdeithas gyfan – ond nid yw hynny'n golygu na allwn ni fod yn uchelgeisiol ar gyfer ein sector.

Mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod y celfyddydau a ariannwn yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r Gymru gyfoes ac yn ein helpu i ddeall y byd o'n cwmpas. Mae'r Adolygiad Buddsoddi hwn yn gyfle i wneud hynny. Wrth ei wraidd mae ganddo gyfle cyfartal. Dylai'r celfyddydau fod yn rhan bob dydd o fywyd pawb, ar hyd a lled Cymru. Gadewch i ni greu pethau gwych ar bob lefel – o lawr gwlad i lwyfannau mawr. Cofiwch ein bod yn gwneud hyn oherwydd bod ein cymunedau angen – nawr yn fwy nag erioed – y llu o fanteision sy'n dod o'r celfyddydau. Mae'r celfyddydau'n perthyn i bob un ohonom, ni waeth beth yw ein cefndir cymdeithasol, ein rhywioldeb, ein rhywedd, ein hethnigrwydd, ein hieithoedd neu'n hoedran. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r cyfleoedd i fwynhau a chreu celf a chymryd rhan ynddi yn gyfartal, ac fel sector byddwn yn gweithio'n galed i fynd i'r afael i ddatrys hyn.

Gadewch i ni hefyd fod yn onest a dweud yn blwmp ac yn blaen fod y blynyddoedd nesaf yn debygol o fod yn rhai anodd. Gall Adolygiad Buddsoddi fel hyn hefyd fod, ynddo ei hun, yn achos pryder i bobl. Gall newid fod yn anodd a heriol ond mae'n rhaid i ni symud ymlaen gyda'n gilydd. Mae angen ffordd newydd o weithio ac ymgysylltu â'n gilydd. Gwyddom fod yn rhaid i ni yng Nghyngor Celfyddydau Cymru newid ein sefydliad hefyd. Rwy'n gobeithio bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynlluniau a'n trafodaethau am yr Adolygiad Buddsoddi. Cafodd y broses ei thrafod yn drylwyr drwy gyfres o sesiynau ymgynghori yr oeddem wedi'u cynnal. Diolch am y trafodaethau hynny, ac am y syniadau a'r ymatebion a ddaeth ohonynt, sydd wedi helpu i lunio'r Adolygiad Buddsoddi hwn. Mae mor bwysig ein bod yn parhau i gael sgyrsiau adeiladol fel sector ac yn symud ymlaen gyda'n gilydd wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yma rydym yn rhannu'r chwe egwyddor allweddol yr ydym yn eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi hwn ac ar gyfer ein cynllun strategol at y blynyddoedd i ddod. Dyma nhw:

**Creadigrwydd:** Er y gallai'r egwyddor hon ymddangos yn amlwg, mae'n dal i fod yn bwysig atgoffa ein hunain mor aml â phosibl fod gan yr holl rychwant o gelfyddydau y grym i'n cysylltu â'n gilydd a deall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Gadewch i ni ddefnyddio'r celfyddydau i herio ein ffordd o feddwl – yn fwy na dim, gadewch i ni fod yn greadigol!

**Y Gymraeg:** Mae'r Gymraeg yn rhan o'n hunaniaeth fel cenedl ac mae creadigrwydd yn rhoi'r cyfle i ni ddyfnhau ein perthynas â hi.

**Ehangu Ymgysylltiad:** Cyrraedd pob un o'r cymunedau hynny yr ydym yn methu'n gyson ag ymgysylltu â nhw. Mae'n bryd newid.

**Cyfiawnder Hinsawdd:** Dyma bwnc pwysicaf ein hamser, felly byddwch yn gyfrifol ac ymunwch â'r daith ar y cyd i wireddu'n llawn botensial y celfyddydau i ddychmygu a chyfleu'r angen am gyfiawnder hinsawdd.

**Meithrin Talent:** Gadewch i ni greu cyfleoedd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan greu ffyrdd newydd i bobl o bob cefndir ddatblygu eu sgiliau a'u potensial fel arweinwyr.

**Trawsnewid:** Nid mater ariannol yn unig yw'r adolygiad hwn – mae'n ymwneud â chefnogi potensial ein sefydliadau celfyddydol i ymdrawsnewid. Peidiwch ag ofni mentro na newid – ac, yn anad dim, i ddod yn berthnasol i gymunedau'r Gymru fodern.

Felly, wrth i chi geisio ymateb i'r heriau hyn, byddwch yn onest gyda ni a dywedwch wrthym ble rydych chi fel sefydliad. Beth yw eich cryfderau a'ch gwendidau? Ble rydych chi o ran datblygu gwahanol agweddau ar eich taith wrth i chi ymateb i'r heriau y mae'r chwe egwyddor wedi eu gosod?

Nid yw hyn yn ateb tymor byr. Rydym ni wedi'n hysbrydoli gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i edrych at yr hir dymor a chydweithio'n well. Rydym yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd yn ein perthynas ariannu wedi'i seilio ar gontractau amlflwyddyn. Nid ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain ond rydym yn rhannu dyheadau Llywodraeth Cymru a'i dymuniad i godi Cymru yn wlad decach a gwyrddach.

Edrychwn ymlaen at weld eich ceisiadau a pharhau â'n sgwrs ar sut mae'r celfyddydau'n chwarae rhan hanfodol yn ein bywyd a sut y gallwn gydweithio i wneud hyn yn well ac adrodd y stori am werth y celfyddydau i'n cenedl.

# Rhan Un: Arian ar gyfer nawr ac yn y dyfodol

Mae'r adran hon yn esbonio pwy ydym ni a beth yw'r Adolygiad Buddsoddi, yr heriau sy'n ein hwynebu fel sector a chymdeithas a sut mae angen i bob un ohonom newid i sicrhau bod y celfyddydau'n decach.

Mae'n amlinellu sut y bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn wahanol a pha egwyddorion a ffactorau fydd yn llywio penderfyniadau.

Mae'n esbonio sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru a'n cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yn ategu'r dull hwn ochr yn ochr â'n cynllun strategol ein hunain.

Mae hefyd yn cynnwys amserlen o'r broses ac yn ateb cwestiynau allweddol.

# 1. Cyfnod o newid

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff swyddogol ar gyfer datblygu, cefnogi a chysylltu'r celfyddydau. Rydym yn gwneud hyn drwy ddosbarthu'r arian cyhoeddus sydd ar gael i ni gan Lywodraeth Cymru a'r arian y byddwn yn ei dderbyn ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol.

Drwy ein gwaith, rydym am weld y celfyddydau'n ffynnu ac yn cyrraedd mor bell ac mor eang â phosibl. Credwn fod y celfyddydau i bawb ac yn **ganolog i fywyd a lles y genedl**.

Mae ein harian yn cefnogi unigolion a rhaglenni gwaith ond mae'r ddogfen hon – a'r Adolygiad Buddsoddi – yn canolbwyntio ar sefydliadau.

Mae'r sefydliadau celfyddydol yr ydym yn eu cefnogi, drwy arian a chydweithio, yn bartneriaid hanfodol wrth ein helpu i wireddu ein gweledigaeth ar y cyd. Mae eu hegni creadigol yn cynhyrchu miloedd o ddigwyddiadau a phrofiadau ar draws sawl math o gelfyddyd – o gerddoriaeth i theatr, y celfyddydau gweledol, dawns, y celfyddydau cymunedol, ffilm, syrcas, llenyddiaeth a phob math arall hefyd. Maent yn creu ac yn ysbrydoli celf sy'n cael ei mwynhau gan filiynau o bobl ledled y wlad ac ymhellach.

Rydym ni'n darparu cymorth tuag at gostau a gweithgareddau craidd sefydliadau ac arian ar gyfer prosiectau a rhaglenni gwaith. Mae'r arian rydym ni'n ei ddarparu ar gyfer costau craidd yn cael ei ddisgrifio'n aml fel cefnogaeth 'refeniw' ac yn draddodiadol mae'n cael ei ddosbarthu yn dilyn **Adolygiad Buddsoddi**. Roedd y broses hon fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd.

## Adolygiad Buddsoddi 2023

Bydd yr Adolygiad Buddsoddi nesaf ar agor i geisiadau ym mis Ionawr 2023, ar gyfer arian o fis Ebrill 2024 ac mae'n newid y ffordd rydym yn ariannu sefydliadau. Drwy'r broses hon, byddwn yn penderfynu pa sefydliadau fydd yn derbyn arian amlflwyddyn drwy edrych ar eu **potensial** i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau a'n gweledigaeth gyffredin ar gyfer y celfyddydau.

Yn dilyn ymgynghoriad eang, bydd Adolygiad Buddsoddi 2023 yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, fel yr amlinellwn isod. Mae hyn oherwydd ein bod yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a fu yno ers tro yn y celfyddydau, a bydd model newydd yn caniatáu i ni weithio mewn ffordd fwy ystwyth ac ymatebol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein proses newydd, y cyd-destun a'r syniadau sydd wedi'i llywio a sut y gall sefydliadau ymgeisio.

## Y cyd-destun a'r heriau

Rydym yn cydnabod y daw'r adolygiad hwn ar adeg pan fo sefydliadau celfyddydol – a llawer o deuluoedd – yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud i oroesi ar bob lefel.

Mae'r sector celfyddydol yn dal i adfer ar ôl y pandemig ac rydym bellach yn delio â'r argyfwng costau byw a hinsawdd economaidd gythryblus. Mae'n amlwg bod llawer o artistiaid, gweithwyr llawrydd, ymarferwyr a gweithwyr sy'n hanfodol i seilwaith y celfyddydau wedi gadael y sector am swyddi sy'n talu'n well a mwy o sicrwydd. Fel cynulleidfaoedd, rydym ni'n dysgu eto beth rydym ni ei eisiau a sut rydym ni am i'r celfyddydau fod yn rhan o'n bywydau. Rydym yn ymwybodol y gallai ein gweledigaeth o 'gelfyddydau i bawb' gael ei herio – o'i roi'n syml, pan fydd pobl yn ei chael hi'n anodd talu am hanfodion, sut mae sicrhau nad yw'r celfyddydau'n mynd yn rhywbeth i'r cyfoethog yn unig a bod yr union annhegwch yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef, yn gwaethygu?

Ni allwn sefyll yn ein hunfan. Ni allwn anwybyddu newidiadau cymdeithasol anferthol y cyfnod diweddar. Yn wir, rydym am fanteisio ar y cyfle i adeiladu ar bopeth yr ydym wedi'i ddysgu dros y blynyddoedd diwethaf wrth i ni barhau â'n symudiad tuag at sector tecach, mwy cyfrifol, gwrth-hiliol, gwrth-ableddiaethus. Mae dull newydd yr Adolygiad Buddsoddi – sy'n canolbwyntio ar chwe egwyddor ar gyfer y cynnydd cadarnhaol a amlinellwn yn y ddogfen hon – yn garreg sylfaen i'r newid hwnnw.

## Sut mae'r Adolygiad Buddsoddi hwn yn wahanol?

Yn y gorffennol, roeddem yn cynllunio Adolygiad Buddsoddi bob pum mlynedd a arweiniodd at grŵp penodol o sefydliadau a oedd wedi'u hariannu dan yr enw 'Portffolio Celfyddydol Cymru'. Rydym am i'r Adolygiad Buddsoddi hwn fod yr olaf o'r 'digwyddiadau mawr' felly, ac yn hytrach hoffem symud tuag at ffordd fwy ymatebol o weithio sy'n ein galluogi i **gymryd golwg mwy hirdymor ar ein harian**. Rydym yn cydnabod y gall arian amlflwyddyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefydliadau, ond rydym am fod yn fwy hyblyg a chynhwysol yn y ffordd rydym yn penderfynu pwy sy'n elwa ar yr adnoddau gwerthfawr hyn.

Mae ein newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Cyfnod ariannu cychwynnol o dair blynedd, gyda gwiriad ym mlwyddyn 2 i gadarnhau cyfnod pellach o arian posib.
- Y potensial am berthynas ariannu barhaus, yn seiliedig ar y patrwm uchod, cyn belled â bod y targedau yn y cytundeb ariannu blynyddol yn cael eu gwireddu.
- Cynnig cyfle blynyddol i sefydliadau newydd sicrhau arian amlflwyddyn.
- Canolbwyntir ar botensial sefydliad i gael effaith, gan edrych ar yr hyn a gyflawnon nhw'n ddiweddar gydag unrhyw fuddsoddiad blaenorol, er mwyn ystyried a yw eu cynlluniau'n ymarferol.
- Disgwyliad i sefydliadau gyhoeddi eu targedau a'u cynnydd ddwywaith y flwyddyn.
- Y cyfle i sefydliadau ymgeisio am gymorth gyda chostau eu gweithgareddau craidd NEU am brosiect neu elfen ar wahân o'u gwaith.
- Byddwn yn defnyddio rhywfaint o'n harian Loteri Genedlaethol ochr yn ochr â'n harian Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r Adolygiad Buddsoddi.

Rydym hefyd am ailddatgan bod ein **perthynas â'r sefydliadau yr ydym ni'n eu hariannu yn un cyfartal**, lle rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol i gymdeithas drwy'r celfyddydau.

Rydym yn dechrau drwy ddefnyddio dull sy'n 'sefydliad-ganolog' yn ein proses ymgeisio. Drwy hyn rydym yn golygu ein bod am i sefydliadau ymateb mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau nhw ac i ddweud wrthym sut mae'r gwaith y maent yn ei wneud ac yn bwriadu ei wneud yn cyd-fynd â'n chwe egwyddor. Rydym am i sefydliadau ddweud wrthym sut mae hyn yn adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni'n ddiweddar, **o'i gymharu â'r buddsoddiad a'r cyfleoedd a gawsant**.

Fel cyllidwr rydym yn gwybod y bydd y galw wastad yn drech nag adnoddau a bod rhaid i ni hefyd edrych ar Gymru yn ei chyfanrwydd. Rydym wedi nodi'r ffactorau cydbwyso a fydd yn fframio ein penderfyniadau terfynol.

## Cyngor Celfyddydau sy'n datblygu

Rydym yn gwybod bod angen i ni newid a'n bod ninnau hefyd ar daith o drawsnewid. Rydym wedi ymrwymo i wrando, i fyfyrio, i ddysgu ac i ddatblygu, gan werthuso'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn adolygu ein dulliau gweithredu.

Rydym wedi ymrwymo i daith ddysgu ochr yn ochr â gweddill sector y celfyddydau. Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau, cyfleoedd datblygu a gofod i fyfyrio ac i gefnogi ein gilydd yn ein gwaith ar draws y chwe egwyddor.

Lle bynnag y bo modd, rydym eisiau cydweithio â'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n hamcanion ac y gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd nag y gallem ar ein pen ein hunain. Byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein partneriaethau pwysig gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru Greadigol, Undebau Creadigol a chyrff eraill sydd wedi'u noddi a'u hariannu'n gyhoeddus.

Bydd ein cynllun strategol, sydd ar y gweill, yn amlinellu hyn yn fanylach.

# 2. Seiliau'r Adolygiad Buddsoddi

Rydym am rannu'r syniadau a'r fframweithiau a lywiodd yr Adolygiad Buddsoddi hwn a sut y bydd ein gwaith cynllunio trawsnewidiol a strategol yn gweithio ochr yn ochr â nhw.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Saith Nod a Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol i bopeth a wnawn, ond hefyd sut rydym yn cynnal yr Adolygiad Buddsoddi. Maent yn ein llywio i ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, a chyda'n gilydd, helpu i atal problemau parhaus, anghydraddoldeb iechyd a newid hinsawdd.

### Saith Nodau Lles

Cymru Lewyrchus

Cymru Gydnerth

Cymru sy'n fwy Gyfartal

Cymru Iachach

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu


Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## Pum Dull o Weithio



### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill.



### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.



### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

## Contract Diwylliannol a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydweithio’n agos â Llywodraeth Cymru ar draws nifer o flaenoriaethau ar y cyd, sy’n cael eu hamlinellu yn ein llythyr cylch gwaith ac yn ei rhaglen lywodraethu. Mae ein hegwyddorion yn ymgorffori disgwyliadau Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru sy’n cael ei ddatblygu. Mae’n adlewyrchu’r math o ymddygiad sydd eisoes yn cael ei arddangos gan sefydliadau cyfrifol a llwyddiannus.

Bwriad Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru yw cefnogi twf cynhwysol a gwell lles yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Ei nod yw sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at bwrpas cymdeithasol ac yn gofyn i sefydliadau addo ymrwymiad ar draws cyfres o feysydd gan gynnwys:

- gwella amrywiaeth ar Fwrdd, Gweithlu a Rhaglenni Gwaith y sefydliad
- cynyddu cyfleoedd i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol a sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau yn cael eu talu'n deg
- annog sefydliadau i wneud cynnydd o ran mesur a lleihau eu hôl troed carbon
- alinio effaith llesiant eu gweithgareddau yn erbyn yr amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- cefnogi mentrau’r celfyddydau ac iechyd gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol

Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei **Strategaeth Ddiwylliannol** ei hun. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i weithio’n agos gyda nhw ar y strategaeth hon.

## Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad

Cafodd y Cynllun Gweithredu ei greu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru er mwyn datblygu a mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad sy'n canolbwyntio ar gymunedau yr ydym yn methu yn gyson â’u cynnwys yn ein gwaith. Roedd pob un o'r tri adroddiad yn canolbwyntio ar gymunedau penodol. Wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynlluniau, byddwn yn cymryd agwedd sy'n cydnabod croestoriadedd. Ein bwriad yw gwneud gwaith pellach gan ganolbwyntio ar gymunedau sy'n wynebu anfantais.

Dylai ein holl waith fod yn **wrth-hiliol**, yn **wrth-ableddiaethus** ac yn **cefnogi’r Gymraeg**. Mae angen i ni gydnabod yr anfantais enfawr y mae **statws economaidd-gymdeithasol isel** – neu dlodi – yn ei orfodi ar bobl. Mae angen i ni gymryd camau cadarnhaol i herio pob anghydraddoldeb.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yma.

## Cynllun Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru

Yr Adolygiad Buddsoddi yw'r cam cyntaf yn ein strategaeth newydd 10 mlynedd a fydd ar waith o fis Ebrill 2023 ymlaen. Bydd ein cynllun strategol newydd yn adeiladu ar lawer o'r hyn a ddysgwyd o'n hymgynghoriad am yr Adolygiad Buddsoddi a bydd y chwe egwyddor yn ganolog iddo. Ac er bod yr Adolygiad Buddsoddi yn hollbwysig i'r ffordd yr ydym yn cefnogi'r celfyddydau, nid dyma'r unig ffordd. Mae yna feysydd allweddol eraill – gan gynnwys **y celfyddydau ac iechyd, addysg a phobl ifanc, gwaith rhyngwladol a chefnogaeth i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol** – a fydd yn gymwys yng ngwaith sefydliadau a ariennir. Bydd buddsodiadau ychwanegol i’r meysydd pwysig hyn drwy raglenni penodedig ychwanegol a nodir yn ein cynllun strategol.

Fel y nodwyd yn ein cyflwyniad, canlyniad allweddol ar draws ein holl waith a’n holl fuddsoddiad – gan gynnwys yr Adolygiad Buddsoddi hwn – fydd y celfyddydau yn cael effaith gadarnhaol ar les pobl yng Nghymru.

Mae'r adnoddau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am y syniadau sydd wedi llywio'r Adolygiad Buddsoddi hwn:

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-26

Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru Llywodraeth Cymru

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg gan Lywodraeth Cymru

Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru

Saith egwyddor gynhwysol #NiChawnEinDileu

Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad – cynllun Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru

# 3. Egwyddorion yr Adolygiad Buddsoddi a ffactorau cydbwyso

Bydd ein Hadolygiad Buddsoddi a'i benderfyniadau ariannu yn cael eu llywio gan chwe egwyddor sydd wedi'u cynllunio i adlewyrchu agweddau o'r sector sydd angen gweld newid cadarnhaol, gweithredu ac esblygiad. Ond bydd angen i ni hefyd ystyried Cymru gyfan. Mae set o ffactorau cydbwyso y byddwn yn eu hystyried wrth edrych ar bob agwedd ar y ceisiadau.

## I. Y chwe egwyddor

Fe gyrhaeddon ni'r chwe egwyddor yma ar ôl cyfnod o fyfyrio ac ymgynghori. Maen nhw'n dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chontract Diwylliannol a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn agos. Er ein bod yn disgrifio pob un yn unigol, **mae croestoriadedd rhwng pob un o'r chwe egwyddor**.

Bydd cwestiynau ymgeisio ac asesiadau'r Adolygiad Buddsoddi yn canolbwyntio ar y chwe egwyddor hwn. Rydym yn disgwyl i'r holl sefydliadau sy'n cael eu hariannu ymrwymo i'w taith ddatblygu eu hunain ar draws pob maes. Y chwe egwyddor yw: Creadigrwydd; Ehangu Ymgysylltiad; y Gymraeg; Cyfiawnder Hinsawdd; Meithrin Talent; a Thrawsnewid.



**Creadigrwydd:** mae gan gelf y grym i'n cysylltu â'n gilydd a'n helpu i ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae'n herio ein ffordd o feddwl ac yn sbarduno ein dychymyg. Os yw wedi'i chreu gyda chywirdeb a dyhead, mae'n dod â llawenydd a gobaith i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Mae creadigrwydd wrth wraidd pawb a phopeth rydym ni'n eu cefnogi. Rydym am weld amrywiaeth eang o ffurfiau ac arferion creadigol yn cael eu creu drwy gadw cymunedau a chynulleidfaoedd mewn cof, sy'n annog arloesedd artistig. Celf sy'n golygu rhywbeth i bobl.

Mae sefydliadau'n cael eu hannog i arbrofi ac i fentro'n artistig, ond yn anad dim, i ddatblygu gwaith sy'n berthnasol, yn gynhwysol ac yn cael ei wneud trwy ddulliau moesol.

**Ehangu ymgysylltiad:** cyrraedd y cymunedau hynny yr ydym yn methu ag ymgysylltu â nhw'n gyson. Dylai'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywydau ei holl ddinasyddion ac eto mae llawer o bobl yn dal i wynebu rhwystrau ac anawsterau o ran ymgysylltu â'r celfyddydau.

Dylai ein dull o ehangu ymgysylltiad fod yn un sy'n cydnabod croestoriadedd a'r ffaith bod pawb sy'n wynebu gwahaniaethu ac anfantais yn rhyng-gysylltiedig. Ein hagwedd yw gwrthod goddef unrhyw hiliaeth, ableddiaeth, homoffobia a thrawsffobia. Rydym am sicrhau bod pobl o gymunedau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y gweithlu, fel arweinwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, crewyr, ymwelwyr, cyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa. Rhaid hefyd parhau i glywed lleisiau'r rhai sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ac mae'n rhaid gweithredu i ddileu'r llu o rwystrau a heriau sy'n eu hwynebu wrth greu a chael mynediad at y celfyddydau.

Mae ehangu ymgysylltiad hefyd yn ymwneud â Democratiaeth Ddiwylliannol – pobl a chymunedau'n cael eu grymuso i lunio ac i lywio eu profiadau celfyddydol a diwylliannol eu hunain ac i fod yn gyd-gynhyrchwyr a chyd-grewyr mewn celfyddydau a diwylliant sy'n adlewyrchu eu profiadau personol.

**Y Gymraeg:** rhaid iddi fod yn rhan lewyrchus o'n bywyd creadigol. Dylai pobl o bob cefndir allu creu a phrofi'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn y Gymraeg. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu y dylai pawb gael cyfle cyfartal i fwynhau ac i greu celf a chymryd rhan ynddi a chael mynediad ati drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag yn ddwyieithog, yng Nghymru.

Byddwn ni'n defnyddio poblogrwydd, potensial a dylanwad y celfyddydau i helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei huchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hoffem i'r holl sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi ddatblygu a hyrwyddo ymdeimlad o rannu perchnogaeth ar y Gymraeg a'i rhan unigryw o fewn Cymru ddwyieithog ac amlieithog.

Rydym yn disgwyl gweld sefydliadau yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu, i ddefnyddio ac i rannu iaith a diwylliant Cymru; rydym am iddynt ddathlu stori'r iaith a'i hesblygiad o fewn diwylliannau a chymunedau cyfoes Cymru.

Rydym yn defnyddio'r term 'cyfiawnder hinsawdd' i drafod ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae cyfiawnder hinsawdd yn golygu rhoi cydraddoldeb a chyfiawnder wrth wraidd unrhyw ymgais i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'n cydnabod bod newid hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, ond nid yn gyfartal.

Y rhai sydd wedi cyfrannu leiaf at yr argyfwng yn aml yw'r rhai sy'n dioddef waethaf gan chwalfa bresennol yr hinsawdd. Ac os edrychwn ar draws y byd, yn amlach na heb, mae hyn yn golygu'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol isel a/neu'n ddiwylliannol ac yn ethnig amrywiol a/neu'n bobl anabl.

Rydym yn defnyddio'r term 'cyfiawnder hinsawdd' i gydnabod bod cymdeithas deg a chyfartal yn un o seiliau allweddol cynaliadwyedd a bod yr hawl i gydraddoldeb a chyfiawnder yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, rydym yn gweithio gyda'r sectorau celfyddydol ac amgylcheddol i gyd-gynllunio strategaeth ar gyfer cyfiawnder hinsawdd a'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod pawb mewn lle gwahanol ar eu taith tuag at ymgysylltu â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd ganddynt lefelau gwahanol o anghenion ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth.

## Cyfiawnder hinsawdd:

drwy weithredu'n gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesegol gynaliadwy.

Mae angen i bob un ohonom gymryd perchnogaeth ar yr argyfyngau hinsawdd a natur. Credwn y gall y celfyddydau, a'r sefydliadau rydym yn eu hariannu, chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn. Er enghraifft, rydym yn gweithio tuag at dargedau Llywodraeth Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 a sector celfyddydol sero net erbyn 2050 fel rhan o darged Cymru sero net.

Rydym am ariannu sefydliadau a fydd yn ymuno â'r daith ar y cyd o wireddu potensial llawn y celfyddydau i ddychmygu, cysylltu a chyfathrebu'r angen am gyfiawnder hinsawdd a defnyddio grym y celfyddydau i effeithio ar newid drwy werthoedd empathi, undod ac iachau. Ymhob un o'n penderfyniadau, byddwn yn gwneud dewisiadau moesol sy'n ystyried yr effaith ar bobl a'r blaned, yn lleol ac yn fyd-eang.

## Meithrin talent:

### ar gyfer dyfodol iach i'r celfyddydau. Mae angen i bob un ohonom sicrhau bod llwybrau sy'n caniatáu i bobl o bob cefndir ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth

Rydym am i'r sefydliadau a ariannwn gydnabod ehangder a dyfnder yr artistiaid yn y sector ac i ddeall bod ecoleg artistig lwyddiannus a chynhwysol yn gofyn am i bawb gydweithio â'i gilydd. Mae buddsoddi mewn gweithlu amrywiol a Chymraeg yn rhan greiddiol o hyn.

Rydym am i sefydliadau feithrin sgiliau ac i ddatblygu cenedlaethau o arweinwyr diwylliannol ac artistiaid y dyfodol. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod sefydliadau'n creu llwybrau a chyfleoedd newydd ar gyfer datblygiadau parhaus, a'u bod yn mynd ati i wrando ar eu cymunedau a'u pobl ifanc. Rydym am weld hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydnabod lles yr unigolion hyn, gyda thâl sy'n deg a chyfartal.

## Trawsnewid:

### manteisio ar gyfleoedd newydd a mentro, bod yn wydn ac yn ymatebol i newid, wrth barhau'n berthnasol i bobl a chymunedau Cymru

Rhaid i sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ymrwymo i ffordd iach o weithio a diwylliant cadarnhaol ac i sicrhau eu bod yn ymatebol, yn arloesol, yn berthnasol ac yn atebol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu twf yn nhermau economaidd; byddwn ni'n ystyried sut mae sefydliadau'n gwneud eu penderfyniadau, pa fath o dystiolaeth maen nhw'n ei ddefnyddio, pwy maen nhw'n ei gynnwys a chynwysoldeb y penderfyniadau hynny.

Rydym yn chwilio am sefydliadau sy'n arwain y ffordd yn eu maes – yn cefnogi ac yn gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid unigol, gweithwyr llawrydd a chyrff eraill. Mae hefyd yn bwysig bod gan y sefydliadau sy'n cael eu hariannu strwythurau llywodraethu a sefydliadol cadarn a gwydn i gyflawni eu cynlluniau, i gymryd a rheoli peryglon ac i nodi meysydd sydd angen cymorth a chefnogaeth.

Fel yr ydym wedi crybwyll o'r blaen, mae meysydd ychwanegol o fuddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru, yn enwedig: **y celfyddydau ac iechyd, addysg a phobl ifanc, gwaith rhyngwladol**. Nid ydym wedi'u cynnwys fel egwyddorion buddsoddi penodol gan na fydd pob sefydliad yn gweithio yn y meysydd hyn, ond bydd llawer am dynnu sylw at ba mor ganolog yw eu gwaith yn y meysydd allweddol hyn er mwyn cyflawni eu nodau strategol.

Mwy am waith y Celfyddydau ac Iechyd

Mwy am ein gwaith rhyngwladol drwy Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru

Mwy am Ddysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau

## II. Factorau cydbwyso

Yn ogystal ag asesu sefydliadau ar eu haeddiant drwy'r chwe egwyddor, wrth wneud ein penderfyniadau fe fyddwn ni'n ystyried beth sydd ei angen ar Gymru gyfan a materion sy'n ymwneud ag ariannu'r celfyddydau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw.

Er mwyn gwneud hyn, mae gennym **bum ffactor cydbwyso** y byddwn yn eu hystyried yn ystod camau olaf ein penderfyniadau wrth inni edrych ar draws y sefydliadau y gallem eu hariannu: Gwasanaethu cymunedau ledled Cymru; Ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol; Lleisiau sy'n cael eu tanariannu sydd ddim yn cael eu clywed; Gwerth cyhoeddus; Maint a fffurf sefydliadau sy'n ymgeisio.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethu cymunedau ledled Cymru | Ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol | Lleisiau sy'n cael eu tanariannu sydd ddim yn cael eu clywed | Gwerth cyhoeddus | Maint a fffurf sefydliadau sy'n ymgeisio |

## Gwasanaethu cymunedau ledled Cymru

Dylai ein harian fod o fudd i bob un o gymunedau Cymru. Rydym ni'n cydnabod bod yna ardaloedd o dlodi sydd yn rhy aml heb gyfleoedd celfyddydol. Rydym am weld seilwaith a gweithgarwch cynaliadwy yn cael eu hymgorffori ar draws lleoliadau gwledig a threfol, gan sicrhau y bydd cyfleoedd yn y celfyddydau ar gyfer y to hŷn a'r to ifanc a chenedlaethau'r dyfodol lle bynnag y maent yn byw.

## Ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol

Rydym am weld ystod eang o gelfyddydau yn ei holl amrywiaeth yn cael ei datblygu a'i chyflwyno i'r cyhoedd, o'r celfyddydau sydd wedi hen ennill eu plwyf i rai mwy newydd a'r rhai sy'n cyfuno celfyddydau. Rydym hefyd yn chwilio am sefydliadau sy'n gweithio mewn lleoliadau penodol neu â ffocws penodol lle mae galw am y celfyddydau, megis y celfyddydau ac iechyd, y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn a fydd yn mynd i'r afael ag unigrwydd a hyrwyddo lles.

## Lleisiau sy'n cael eu tanariannu a lleisiau sydd ddim yn cael eu clywed

Rydym am i'n harian adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein hymchwil, yn fewnol ac yn allanol, yn dweud wrthym nad ydym wedi bod yn ymgysylltu'n ddigonol â chymunedau penodol a bod rhai sefydliadau wedi profi rhwystrau wrth geisio cael gafael ar ein harian. Rydym yn awyddus i gefnogi sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bobl sy'n ethnig ac yn ddiwylliannol amrywiol, pobl sydd ag anableddau, pobl sy'n fyddar, pobl sy'n niwroamrywiol, pobl sydd wedi profi gwahaniaethu neu hiliaeth, pobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol, pobl ifanc a phobl sy'n nodi eu bod yn LHDTH+. Mae cefnogaeth i'r bobl a'r cymunedau hyn yn hanfodol er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o waith artistig o ansawdd uchel sy'n cael ei greu a'i gyflwyno yng Nghymru gan artistiaid amrywiol. Rydym am hyrwyddo pobl sydd â'r profiadau personol hyn. Byddwn yn ceisio cefnogi sefydliadau a all ddangos ymrwymiad i roi llwyfan i gymunedau ymylol yng Nghymru.

## Gwerth cyhoeddus

Rydym yn dyfarnu arian cyhoeddus ac mae gennym gyfrifoldeb i bobl Cymru i'w ddefnyddio'n gyfrifol ac yn effeithiol er eu lles. Mae anghenion a dymuniadau cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn allweddol i'n penderfyniadau. Weithiau nid yw o bwys bob amser faint o docynnau sy'n cael eu gwerthu, ond mae'n bwysig ein bod yn cefnogi gweithgareddau celfyddydol sy'n fforddiadwy ac sy'n cyflwyno gwerth da o ran pwy sy'n eu profi a'r gwerth maen nhw'n ei roi arnynt.

## Maint a ffurf sefydliadau sy'n ymgeisio

Rydym eisiau i gymorth amlflwyddyn ein galluogi i gefnogi ystod ehangach o sefydliadau nag yn y blynyddoedd blaenorol. Felly, byddwn yn ceisio ariannu amrywiaeth o sefydliadau o wahanol feintiau ac sydd ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y gallu i gynyddu maint gwaith – ledled Cymru ac yn rhyngwladol – ac er nad yw hyn wastad yn cael ei wneud gan gwmnïau mwy, maent hefyd yn chwarae rhan wrth wneud hyn, yn ogystal â chefnogi eraill. Ond mae angen i ni sicrhau bod unrhyw dwf yn gynaliadwy.

Bydd y pum ffactor cydbwyso yn cael eu cyflwyno yn ystod camau olaf y broses asesu (camau 3 a 4), ar ôl i sefydliadau gael eu hasesu ar eu rhinweddau yn erbyn y chwe egwyddor. Byddant yn helpu i lywio ein penderfyniadau gan ei bod hi'n debygol na fydd gennym yr adnoddau i ariannu pob sefydliad, gan gynnwys rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cryf o bosib.

Mae'n bwysig nodi **na fyddwn** yn seilio ein penderfyniad i ariannu sefydliad ar sut y gallent fynd i'r afael â'r ffactorau cydbwyso yn unig. Yn gyntaf oll, mae angen i sefydliadau ddangos eu potensial i gyflawni ar draws y chwe egwyddor.

Yn hytrach nag ariannu sefydliad sydd ddim yn bodloni'r safon, os oes angen cymryd camau pellach i sicrhau cydbwysedd ar draws y ffactorau hyn ar ddiwedd yr adolygiad, byddwn yn ymrwymo i wneud ymyriadau strategol eraill er mwyn helpu i wireddu hyn, megis rhaglen waith wedi'i thargedu.

# 4. Ein hymrwymiad i chi

Mae'n hanfodol i'r Adolygiad Buddsoddi gael ei gynnal gyda thryloywder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod un broses ymgeisio symlach yn cael ei defnyddio sy'n deg i bob sefydliad.
- Croesawu ceisiadau yn Gymraeg, yn Saesneg a BSL, gan sicrhau triniaeth deg a chyfartal beth bynnag fo'u hiaith.
- Darparu cymorth hygyrchedd i gynorthwyo gyda darllen a deall cwestiynau'r cais a chynnig y cyfle i ymgeiswyr ymateb mewn gwahanol fformatau – hynny yw, ysgrifenedig, sain, neu fideo.
- Cydnabod y cyd-destun economaidd presennol a realiti'r heriau sy'n wynebu'r sector. Er ein bod ni'n gofyn i sefydliadau wneud y mwyaf posib o'u harian cyhoeddus, rydym hefyd yn holi am gynigion realistig sy'n cynnig gwerth am arian i bobl Cymru.
- Ymrwymo i fod yn agored a thryloyw, gan sicrhau ein bod ni'n cyhoeddi canllawiau clir am y broses ymgeisio ac asesu a chanlyniadau ein penderfyniadau.
- Sicrhau bod ein rheolaeth o unrhyw wrthdaro buddiannau i'n swyddogion a'n haelodau yn cydymffurfio'n llawn â'n Cod Arferion Gorau a gyhoeddwyd.
- Caniatáu digon o amser i reoli effaith ein penderfyniadau ar y sefydliadau dan sylw.
- Bwrw ymlaen â'n trawsnewidiad ein hunain sy'n cael ei gefnogi gan ein cynllun strategol; bydd hyn yn golygu datblygu perthynas fwy cydweithredol ac i ddysgu wrth y sefydliadau a ariannwn wrth i ni barhau i ddatblygu partneriaethau mwy strategol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol a rhyngwladol eraill er mwyn gwireddu amcanion ar y cyd.
- Defnyddio'r Adolygiad Buddsoddi fel cyfle i ddatblygu ein dulliau gwerthuso er mwyn deall yn well effaith y celfyddydau yr ydym yn ei ariannu ac i gefnogi'r celfyddydau ar sail y gwahaniaeth maent yn ei wneud a'r effaith y maent yn ei chael. Byddwn yn symud tuag at "atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau" fel ffordd o weithio drwy gasglu data ac enghreifftiau o effaith gan sefydliadau er mwyn adrodd y stori'n llwyddiannus.

# 5. Adolygiad Buddsoddi 2023 – gwybodaeth allweddol

Cyn i ni amlinellu'r broses o sut i ymgeisio, hoffem ateb rhai cwestiynau allweddol am yr Adolygiad Buddsoddi hwn a'r broses a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad â'r sector. Byddwn hefyd yn parhau i ddiweddaru Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan drwy gydol y cyfnod ymgeisio:

## Am ba arian y gall sefydliadau ymgeisio drwy'r adolygiad buddsoddi?

Gallwch ymgeisio am **arian craidd** (tuag at gostau rhedeg cyffredinol eich sefydliad a'ch gwaith craidd) neu ar gyfer **prosiect neu raglen benodol o weithgareddau** sy'n gyson â'n chwe egwyddor (er enghraifft costau rhaglen neu gostau sy'n gysylltiedig â darparu elfen gelfyddydol benodol o fewn gwaith mwy o faint neu arian amlflwyddyn ar gyfer prosiect celfyddydol).

## Am ba gyfnod fydd y cytundebau ariannu?

Rydym ni'n gofyn i chi ymgeisio am **gyfnod cychwynnol o dair blynedd**, sy'n mynd â'r arian hyd ddiwedd Mawrth 2027. Mae potensial ar gyfer cyfnod ariannu ychwanegol fydd yn cael ei gytuno yn sgil gwiriad yn ystod yr ail flwyddyn, a bydd yn ddibynnol ar berfformiad a chyflawni yn erbyn y targedau yn eich cytundebau ariannu.

Ein nod yw symud o gylchoedd pum mlynedd i gymryd golwg tymor hwy ar arian sy'n ein hannog ni, a'r sector yr ydym yn ei gefnogi, i gynllunio ac i lunio strategaethau hirdymor. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni fod yn ymatebol. Mae potensial ar gyfer perthynas ariannu barhaus, ond byddwn ni'n parhau i adolygu effeithiolrwydd ein dull o weithredu.

## A fydd cyfleoedd eraill am arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru?

Bydd. Mae'r Adolygiad Buddsoddi ar gyfer sefydliadau celfyddydol sy'n chwilio am gymorth amlflwyddyn. Bydd ein cynlluniau cymorth eraill gan y Loteri Genedlaethol (fel Creu) yn parhau i gynnig arian prosiect i sefydliadau ac unigolion a gallai fod yn opsiwn gwell os ydych yn edrych ar weithgaredd untro. Gweler ein tudalen ariannu am ragor o wybodaeth. Os ydych chi'n llwyddiannus am arian Adolygiadau Buddsoddi, efallai y byddwch hefyd yn gallu ymgeisio am gynlluniau cymorth eraill y Loteri Genedlaethol, ond byddwn ni'n trafod hyn gyda chi'n unigol.

## Fel arfer, rydym yn ymgeisio am arian y Loteri Genedlaethol am ein gwaith prosiect. A ddylem barhau i ymgeisio? Beth os ydym am gynnwys gwaith a allai gael ei ariannu gan y Loteri yn ein cais i'r Adolygiad Buddsoddi?

Gan nad yw arian yr Adolygiad Buddsoddi yn cael ei warantu (a hyd yn oed os ydych yn llwyddiannus, nid yw'n cychwyn tan Ebrill 2024), dylech barhau i ymgeisio am arian prosiect fel arfer. Os oes gorgyffwrdd yn yr arian a ddyfernir i chi drwy'r Loteri gyda gweithgaredd sydd wedi'i ariannu drwy gais llwyddiannus i'r Adolygiad Buddsoddi, byddwn yn trafod gyda chi sut y byddwn yn addasu'r naill grant neu'r llall er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn.

## Pa gyfleoedd eraill fydd i gael gafael ar y arian hwn ar ôl yr Adolygiad Buddsoddi?

Ein bwriad yw y bydd cyfle blynyddol i sefydliadau ymgeisio am arian amlflwyddyn ar ôl yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Felly ddiwedd mis Mawrth 2025 fydd hynny. Byddwn ni'n ystyried ffyrdd y gallwn ni weithio gyda sefydliadau a allai fod eisiau dechrau cael arian amlflwyddyn yn y dyfodol. Bydd mwy o fanylion am hyn ar gael yn ystod y misoedd nesaf.

## O ble fydd yr arian yn dod?

Byddwn ni'n defnyddio Cymorth Grant Llywodraeth Cymru neu arian y Loteri Genedlaethol, neu gymysgedd o'r ddau mewn rhai achosion. Byddwn yn gwneud y penderfyniad ar sail y ceisiadau a gawn; nid oes disgwyl i sefydliadau nodi ffynhonnell yr arian yn ystod y cam ymgeisio. Byddwn yn dweud wrthych am ffynhonnell eich arian pan fyddwn yn ei ddyfarnu. Fel yn achos ein cyfleoedd ariannu eraill, os na allwch, am unrhyw reswm, dderbyn arian y Loteri, byddwn yn anelu at eich ariannu o arian yr ydym yn ei dderbyn o ffynonellau eraill.

## Faint o arian sydd ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi?

I roi rhyw syniad i chi, yn y blynyddoedd blaenorol rydym wedi dyrannu tua 88% o'n harian Cymorth Grant blynyddol o £32 miliwn gan Lywodraeth Cymru a swm llai o'n harian Loteri Genedlaethol i 67 sefydliad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru.

Y tro hwn rydym yn ceisio cynyddu cyfraniad arian y Loteri Genedlaethol at yr Adolygiad Buddsoddi. Fodd bynnag, mae angen y rhan fwyaf o'n harian Loteri Genedlaethol (tua £16 miliwn) i gefnogi artistiaid a phrosiectau unigol, felly mae'n gyfyng arnom o ran faint y gallwn ei gynnig ac nid yw'r ffigwr hwnnw wedi ei gadarnhau eto.

Hyd yn oed wrth ddefnyddio arian y Loteri – sy'n amrywio am ei fod yn dibynnu ar werthiant tocynnau – rydym yn llwyr ddisgwyl i'r galw am arian fod yn llawer uwch na'r arian sydd ar gael. Ac er bod gennym ni ffigyrau dangosol gan Lywodraeth Cymru am ein Cymorth Grant am y tair blynedd nesaf, gallent newid hefyd.

Byddem yn gofyn i ymgeiswyr ystyried hyn yn ofalus wrth baratoi eu cyllidebau a'u ceisiadau.

## Am faint alla i ymgeisio?

Er nad ydym yn cyhoeddi canllawiau na throthwy ar gyfer faint y gallwch ymgeisio amdano, cofiwch y bydd galw mawr am yr arian. Os ydych eisoes yn derbyn arian, dylech lunio eich cyllideb o’r cychwyn yn deg yn hytrach na rhoi canran o godiad i bob agwedd ar eich arian presennol. Mewn geiriau eraill, dylech ond gofyn am y arian sydd ei angen arnoch i gyflawni’r canlyniadau allweddol a’r gweithgareddau cysylltiedig sy’n gyrru eich sefydliad. Byddwn yn edrych ar gostau rhedeg y gweithgareddau sy’n greiddiol i’ch sefydliad (neu elfen benodol ohonynt, os ydych chi’n ymgeisio am arian prosiect amlflwyddyn), felly ystyriwch a fyddai’r costau rydych chi’n eu cynnwys yn eich cais ar gyfer gwaith craidd neu weithgareddau untro a fyddai’n fwy addas ar gyfer mathau eraill o arian.

## Ar hyn o bryd rydw i’n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Beth os nad ydw i’n cael arian parhaus drwy’r Adolygiad Buddsoddi?

Cyn diwedd Mawrth 2023, bydd holl aelodau presennol o’r Portffolio yn derbyn rhybudd y bydd eu harian yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024. Ym mis Medi 2023, byddwn yn cyhoeddi pa sefydliadau fydd yn cael arian drwy’r Adolygiad Buddsoddi hwn. Rydym yn ystyried ‘cymorth pontio’ er mwyn helpu sefydliadau aflwyddiannus fedru rheoli’r cam hwn a allai gynnwys gweithio tuag at weithredu mewn ffordd wahanol neu leihau neu roi’r gorau i weithio. Byddai cefnogaeth ar gael o ganlyniad i ymgeisio amdano ac nid oes sicrwydd y cewch gefnogaeth o’r fath. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am hyn yn ystod y misoedd nesaf.

## Dydw i ddim yn siŵr a ddylwn gyflwyno cais i’r Adolygiad Buddsoddi. Ydw i’n gallu siarad â rhywun?

Cewch ac rydym ni’n eich annog yn gryf i wneud hynny. Gallwch drefnu sgwrs gyda swyddog Cyngor y Celfyddydau a fydd yn cynnig eich tywys drwy gynnal sgwrs â chi i’ch helpu i benderfynu. Gallant hefyd eich cynghori am ein rhaglenni eraill o gefnogaeth.

Trefnwch hyn cyn gynted â phosibl gan na fyddwn yn gallu cynnal y sgyrsiau hyn ar ôl 3 Mawrth 2023.

# 6. Adolygiad Buddsoddi 2023 – amserlen

Disgrifiwn fanylion y broses ymgeisio yn yr adran nesaf, ond dyma gipolwg ar y dyddiadau allweddol:

| | | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddi canllawiau ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi** | 12 Rhagfyr 2022 | Cyhoeddi'r ddogfen hon a'n hymateb i'r cyfnod ymgynghori. |
| **Cyfle i** siarad â swyddog Cyngor y Celfyddydau **am yr Adolygiad Buddsoddi** | 12 Rhagfyr – 3 Mawrth 2023 | Mae hyn hefyd yn gyfle i ofyn am unrhyw gymorth hygyrchedd sydd ei angen arnoch.<br><br>Ni fyddwn yn gallu trafod eich cais ar ôl 3 Mawrth (ond bydd cymorth technegol ar gael) felly cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.<br><br>Cofiwch gofrestru cyfrif ar y porth i ymgeisio. Os nad oes gennych gyfrif yn barod, cofiwch y gall gymryd hyd at bum diwrnod gwaith. |
| **Agor am geisiadau** | Hanner dydd 9 Ionawr – hanner dydd 31 Mawrth 2023 | Gall sefydliadau cymwys gyflwyno cais ar-lein.<br><br>Mae opsiynau i'r prif gwestiynau gael eu hateb drwy fideo (gan gynnwys BSL) neu sain. |
| **Asesiad** | Ebrill-Awst 2023 | Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a Chymdeithion. Gweler Sut y byddwn yn asesu eich cais am fanylion y broses pedwar cam. |
| **Cyfathrebu Penderfyniadau Dangosol** | Erbyn diwedd Medi 2023 | Bydd ein Cyngor yn gwneud penderfyniadau 'mewn egwyddor' ar aelodaeth y cyrff a ariannwn yn y dyfodol.<br><br>Bydd ein Cyngor yn cyhoeddi canlyniad dangosol yr Adolygiad Buddsoddi erbyn diwedd y mis.<br><br>Mae'r broses apelio yn agor. |
| **Cadarnhau arian – cyhoeddi canlyniadau** | Erbyn diwedd Rhagfyr 2023 | Proses apelio yn dod i ben.<br><br>Mae'r sefydliadau llwyddiannus yn derbyn cadarnhad o'r arian a gynigir.<br><br>Y gwaith ar gytundebau ariannu yn dechrau. |
| **Trefniadau ariannu newydd yn cychwyn** | Ebrill 2024 | |

# Rhan Dau: Ymgeisio

Nod yw adran hon yw eich helpu drwy'r holl broses o ymgeisio, o benderfynu a ydych chi'n gymwys i ddarparu cymorth am y cais ei hun, gyda gwybodaeth am y cwestiynau y bydd angen i chi eu hateb a beth i'w ddisgwyl os ydych yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

Mae'r adran hon hefyd yn esbonio sut y byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ariannu.

# 1. Trosolwg o'r broses

Mae'r Adolygiad Buddsoddi 2023 yn **broses ymgeisio un llwybr**. Mae hyn yn golygu y bydd pob sefydliad yn dilyn yr un broses ymgeisio. Fodd bynnag, bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu lefel o fanylion sy'n **gymharol i'w sefydliad a'u ceisiadau am arian**. Byddwn yn egluro mwy ar hyn pan fyddwn yn ymdrin â'r cwestiynau ymgeisio.

Rydym wedi gweithio i wneud y broses ymgeisio mor syml â phosibl. Isod mae amlinelliad o'r camau allweddol:

**Cyn i chi ymgeisio:**

- Gwiriwch gymhwystra eich sefydliad
- Ystyriwch siarad ag un o swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Yn enwedig os nad ydych chi'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru ar hyn o bryd. Mae angen i hyn ddigwydd cyn 3 Mawrth 2023.
- Cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl ar grantiau@celf.cymru os oes angen **cymorth mynediad** arnoch.

**Y chwe cham i ymgeisio:**

1. Cofrestrwch am gyfrif ar-lein ar borth ar-lein Cyngor Celfyddydau Cymru yma, neu fewngofnodwch i'ch cyfrif os oes un gennych chi'n barod.
2. Ewch i'r adran Grantiau a dechreuwch gais ar-lein.
3. Llenwch y wybodaeth sylfaenol ofynnol am eich sefydliad.
4. Atebwch y cwestiynau ar y cais am eich gweithgareddau diweddar a rhai'r dyfodol. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig ar y porth, neu drwy ddarparu dolen i fideo neu ymateb sain y gallwn ei lanlwytho. Mae mwy o wybodaeth fan hyn.
5. Uwchlwythwch gopi o'ch cynllun busnes (ar gyfer y blynyddoedd 2024/25, 2025/26 a 2026/27).
6. Uwchlwythwch gopi o'ch cyllidebau (ar gyfer y blynyddoedd 2024/25, 2025/26 a 2026/27).

Sylwer y bydd gennych hefyd yr opsiwn o roi hyd at dair gwe-ddolen sy'n arwain at eich deunydd ategol sy'n gysylltiedig â'ch gwaith neu sy'n ei gynrychioli.

## 2. Cymhwystra

I ymgeisio i'r Adolygiad Buddsoddi, rhaid i chi fod yn sefydliad, neu'n gyfuniad o sefydliadau, naill ai wedi'u lleoli yng Nghymru neu â sylfaen weithredu gydnabyddedig yng Nghymru a chael eich cyfansoddi'n ffurfiol. Rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol (os ydych yn ymgeisio fel casgliad o sefydliadau, rhaid i un ohonoch fod yn sefydliad arweiniol sy'n ymgeisio a rhaid iddo fodloni'r meini prawf).

Mae mathau cymwys o sefydliadau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cwmni cyfyngedig drwy warant
- Elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- Sefydliad corfforedig elusennol (CIO)
- Cwmni buddiant cymunedol (CIC)
- Rhan o awdurdod lleol (adran sydd â rhaglen gelfyddydol gyhoeddus, megis canolfan neu leoliad celfyddydol)
- Rhan o brifysgol (adran sydd â rhaglen gelfyddydol gyhoeddus, megis canolfan neu leoliad celfyddydol)

**Os yw eich sefydliad dielw yn cael ei gyfansoddi mewn ffordd wahanol, siaradwch â ni i gadarnhau eich bod yn gymwys i ymgeisio.**

Rhaid i'ch sefydliad gael y canlynol i gyd:

- Cyfansoddiad/ memorandwm ac erthyglau cymdeithasu ysgrifenedig sy'n adlewyrchu ffocws celfyddydol.
- Nifer priodol o ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/ neu'r Comisiwn Elusennau. Rhaid i hyn fod o leiaf dri pherson sydd heb gysylltiad, ond bydd angen i nifer aelodau o'r bwrdd a thelerau gwasanaeth adlewyrchu maint a natur y sefydliad. Mae angen i'r rhain fod ar waith erbyn 31 Mawrth 2023;

  NEU

  Fwrdd Cynghori neu Grŵp Llywio os ydych yn cael eich arwain gan gorff statudol (er enghraifft awdurdod lleol, adran o'r brifysgol neu goleg, neu'r BBC).
- Wedi bod yn gweithredu am o leiaf dwy flynedd ac felly wedi cynhyrchu datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod hwnnw (cyfrifon archwiliedig – neu'r hyn sy'n cyfateb – i'ch sefydliad neu awdurdod lleol neu adran o'r brifysgol) a, lle bo'n briodol, wedi'u ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau a/ neu'r Comisiwn Elusennau. Os yw eich strwythur cyfreithiol yn llai na dwy oed ond rydych chi wedi bod yn gweithredu yn yr un modd ers dwy flynedd neu fwy fel endid cyfreithiol blaenorol, cysylltwch â ni i ystyried a allwn ystyried eich strwythur blaenorol.
- Profiad o ddarparu gweithgarwch celfyddydol o ansawdd uchel.

**Ni fydd y canlynol yn gymwys** i ymgeisio:

- Unigolion (mae cynlluniau'r Loteri Genedlaethol sydd gennym yn parhau ar agor)
- Ysgolion (sefydliadau addysgol llawn amser sydd naill ai'n annibynnol neu o dan reolaeth awdurdodau lleol)
- Cwmnïau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau
- Cwmnïau sydd ag un cyfarwyddwr yn unig neu gwmnïau â dim ond dau gyfarwyddwr (neu fwy) sydd â chysylltiad neu'n byw yn yr un cyfeiriad
- Sefydliadau eraill nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra uchod

Sylwer: efallai y byddwn yn gwirio'r wybodaeth a ddarperwch gyda Thŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau neu gyrff rheoleiddio eraill.

## 3. Siarad â swyddog Cyngor y Celfyddydau

Rydym yn eich cynghori y dylech chi gysylltu â swyddog Cyngor Celfyddydau Cymru cyn i chi wneud cais, yn enwedig os nad ydych yn aelod ar hyn o bryd o Bortffolio Celfyddydol Cymru.

Gallwch chi ein he-bostio neu ein ffonio. Mae ein manylion cyswllt yma.

Ni fydd y swyddog yn gallu rhoi cyngor neu argymhellion pwrpasol y tu hwnt i'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi eisoes gennym. Gall y swyddog eich cynorthwyo gyda chwestiynau penodol. Os nad ydych yn siŵr a ddylech chi wneud cais, gall y swyddog eich helpu i gyrraedd penderfyniad gyda digon o wybodaeth drwy fynd â chi drwy gyfres o gwestiynau mewn sgwrs dywys a fydd yn cael ei chynnal ar y ffôn neu drwy Sŵm (neu ryw gyfrwng tebyg).

Mae angen gwneud ymholiadau e-bost a chynnal sgyrsiau cyn diwedd 3 Mawrth 2023. Ar ôl hynny, ni fydd swyddogion yn gallu trafod ceisiadau mwyach (ond byddwch yn dal i allu cael cefnogaeth dechnegol).

## 4. Hygyrchedd ac ymgeisio mewn fformatau amgen

Os oes angen cymorth arnoch i ddarllen a deall cwestiynau'r cais, gallwn gynnig cymorth. Gallwn eich helpu i greu eich cyfrif ar-lein a'ch helpu i lenwi'r wybodaeth sylfaenol. Os hoffech dderbyn ein cymorth yn y meysydd hyn, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

Ar gyfer cwestiynau'r cais, gallwn dderbyn fideo (gan gynnwys BSL) neu gyflwyniad sain.

# 5. Ymgeisio

## Cofrestru eich sefydliad ar y porth

Os nad oes gan eich sefydliad gyfrif ar ein porth ar-lein yn barod, bydd angen i chi greu un.

Gallwch gofrestru fan hyn. Os nad ydych yn siŵr os yw eich sefydliad wedi ymgeisio gyda ni o'r blaen neu os ydych yn ansicr a oes gennych gyfrif neu'n methu dod o hyd i'r manylion, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru a byddwn yn chwilio amdanoch.

**Gall gymryd hyd at bum diwrnod gwaith i sefydliadau newydd gael eu cofrestru ar ein system a chael mynediad at y broses ymgeisio, felly sicrhewch eich bod yn cofrestru mewn da bryd os ydych yn dymuno ymgeisio.**

## Diweddaru eich manylion

Pan fyddwch yn mewngofnodi i'n porth ariannu, mae'n syniad da i chi adolygu adran Weinyddol eich cyfrif ac i sicrhau bod eich gwybodaeth yn gyfoes. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi ddiweddaru cysylltiadau eich sefydliad, manylion llywodraethu, manylion banc neu wybodaeth am gydraddoldeb.

Mae'n ddefnyddiol bob amser i wneud hyn yn gyntaf ac mae'n helpu lleihau amser gweinyddol nes ymlaen yn y broses ymgeisio.

Gallwch ddarganfod sut i wneud hyn yma.

## Dechrau cais

Unwaith y byddwch yn hyderus bod gennym yr holl wybodaeth ddiweddaraf am eich sefydliad, gallwch ddechrau ar eich cais.

Mae gwneud cais ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi yn union fel gwneud unrhyw gais arall am arian oddi wrthym ni.

Gallwch ddod o hyd i ffurflen gais yr Adolygiad Buddsoddi o dan Dechrau Cais Newydd yn yr adran Grantiau ar ein porth. Ar ôl i chi ddechrau'r ffurflen, gallwch ei harbed a dod yn ôl ati yn y dyfodol, drwy'r adran Parhau Cais yn adran Grantiau y porth.

Yna bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar-lein ar y porth.

Os na allwch gael gafael ar y ffurflen ar-lein neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru

## Cyflwyno eich cais

Bydd angen i chi gyflwyno eich cais gorffenedig drwy'r porth erbyn hanner dydd ar 31 Mawrth 2023. Ar ôl i ni dderbyn eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch chi.

Ni fyddwn yn asesu ceisiadau hwyr. Ni fyddwn yn gallu derbyn gwybodaeth ychwanegol am y cais ar ôl y dyddiad cau. Dylai ymgeiswyr felly sicrhau eu bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani wrth gyflwyno'r cais.

**Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y cais llawn yn cael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau uchod**. Os cewch unrhyw anawsterau wrth gyflwyno eich cais, e-bostiwch ni ar adolygiadbuddsoddi@celf.cymru cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn caniatáu digon o amser cyn y dyddiad cau i ymgeisio er mwyn i ni ymateb i'ch problem.

# 6. Cwestiynau'r cais

| Rhan A | Rhan B | Rhan C |
|---|---|---|
| Gwybodaeth Sylfaenol | Gweledigaeth, Cenhadaeth, Amcanion | Chwe chwestiwn, un ar gyfer pob un o'r chwe egwyddor. Mae dwy ran i bob cwestiwn, rhan a) a rhan b). |

## A. Gwybodaeth Sylfaenol

Yn y porth byddwn yn gofyn i chi lenwi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eich sefydliad. Yn y porth fe fyddwn yn gofyn i chi lenwi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eich sefydliad ar ddechrau ac ar ddiwedd eich cais.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi sôn am eich hanes o dderbyn arian yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## B. Gweledigaeth, Cenhadaeth, Amcanion

Byddwn yn dechrau trwy ofyn i chi am eich gweledigaeth, eich cenhadaeth a'ch amcanion fel sefydliad. Rydym ni eisiau deall y newid mwy hirdymor yr ydych chi am ei wireddu. Bydd yn ein helpu i ddeall pam eich bod eisiau gwneud y pethau rydych chi am eu gwneud yn ystod y tair blynedd nesaf a'r amcanion y maent yn gweithio tuag at eu gwireddu.

Mae gennych chi 500 gair – neu pum munud ar gyfer cyflwyniadau sain neu fideo – ond efallai y byddwch chi eisiau cyfeirio'n glir at adran berthnasol yn eich cynllun busnes.

## C. Cwestiynau'r Chwe Egwyddor

Prif ran y cais yw set o gwestiynau ynglŷn â chwe egwyddor. Dylech gysylltu eich atebion i'r cwestiynau â'ch cenhadaeth, eich gweledigaeth a'ch amcanion tymor hwy.

Rydym ni eisiau deall sut mae eich cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ymwneud â'n chwe egwyddor ac yn eu cefnogi. Felly, **ar gyfer pob egwyddor, byddwn yn gofyn i chi ateb dau gwestiwn.**

Wrth ateb, gallwch gyfeirio at eich **cynllun busnes, eich cyllidebau a'ch gwe-ddolenni i ddeunyddiau ategol** am fwy o fanylion neu gyd-destun. Bydd angen i chi gyfeirio'n glir ac yn benodol pan fyddwch yn gwneud hyn (er enghraifft "tudalen 13, adran 12.3, paragraff 4"). **Heb gyfeiriad clir a phenodol, ni fydd swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru yn gallu eu hystyried fel deunyddiau ategol**. Nid yw'r cynllun busnes na'r gwe-ddolenni i ddeunyddiau ategol yn cael eu hasesu na'u sgorio ar wahân fel rhan o'r broses hon.

Byddwch chi'n gallu ateb y cwestiynau hyn yn ysgrifenedig neu drwy fideo neu sain.

## Y cwestiwn cyntaf (a)

**Eich potensial:** Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (sef y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (allbynnau)?

Byddwn yn gofyn i chi ddatgan **tri chanlyniad ar y mwyaf fan hyn**, felly dewiswch y rhai sy'n flaenoriaethau. **Er ein bod am weld eich ymateb ar draws y chwe egwyddor, peidiwch â theimlo bod angen i chi ddatgan tri chanlyniad ar gyfer pob un. Efallai mai dim ond un neu ddau sydd gennych ar gyfer rhai egwyddorion. Ni fydd hyn yn eich rhoi dan anfantais.**

Enghraifft (heb fod yn un gelfyddydol):

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol cysylltiedig)

**Canlyniad: Cynyddu lles drwy wella mynediad at natur ar ein hystâd o dai (tudalen 3 o'r cynllun busnes)**

Allbwn 2024/5: dewis ysgolion i gyd-gynllunio gardd gyhoeddus (tudalen 9 o'r cynllun busnes), codi arian (tudalen 2 o'r gyllideb)

Allbwn 2025/6: gwneud yn ddiogel/ atgyweirio, sesiynau garddwyr ifanc wythnosol (tudalen 9 paragraff 5 o'r cynllun busnes)

Allbwn 2026/27: ymgyrch lansio (tudalen 2 o'r gyllideb), agor Chwefror 2027, plannu gydag ysgolion x 5, ymuno â'r cynllun gefeillio rhyngwladol (tudalen 10 o'r cynllun busnes

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y canlyniadau a'r allbynnau rydych yn eu cyflwyno yn sail i drafod y cytundeb ariannu ac felly yn sail i'r cynlluniau y byddwn yn gofyn i chi eu cyhoeddi. Cadwch y canlyniadau a'r allbynnau yn syml, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy, gan gynnwys ffigyrau gwaelodlin lle bo hynny'n briodol.

## Yr ail gwestiwn (b)

**Eich tystiolaeth:** Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

**Nid** ydym yn chwilio yma am hanes o lwyddo dros y blynyddoedd, dim ond enghreifftiau diweddar (y 2 neu 3 blynedd diwethaf) i **ddangos eich bod yn gallu cyflawni eich cynlluniau** ac wedi **ymrwymo i daith o ddatblygiad**, ni waeth pa mor orffenedig ydyw.

Rydym ni hefyd **yn gwybod efallai na fyddai rhai sefydliadau wedi cael arian craidd o'r blaen** neu ar y lefel rydych chi'n gofyn amdano nawr. Mae hynny'n iawn. Rydym am weld yr effaith rydych wedi llwyddo i'w chyflawni o'i gymharu **â'r buddsoddiad** a'r cyfleoedd rydych wedi'u cael hyd yma, fel y gallwn ddeall y gwahaniaeth y gallech ei wneud gyda'r arian. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n gallu dangos i ni yr effaith rydych chi eisoes wedi'i chreu gyda £20,000 o arian prosiect ac yna ddangos sut y gellid gwella'r effaith hwnnw gyda buddsoddiad pellach. Efallai y byddwch am gyfeirio at eich gwe-ddolenni deunydd ategol (er enghraifft "gweler gwe-ddolen i adolygiad o'n harddangosfa ddiwethaf a ddefnyddiodd y dull hwn o weithio")

I'r sefydliadau hynny sydd wedi cael eu hariannu, byddwn yn edrych ar effaith a ffocws buddsoddiad yn y gorffennol a sut mae hynny wedi llywio eich cynlluniau at y dyfodol.

Rydym ni'n disgwyl i sefydliadau fod yn onest ynghylch sut maen nhw'n datblygu gwaith ar draws **pob un o'r chwe egwyddor**. Rydym yn deall y gallai fod gwahaniaethau yn yr effaith rydych yn ei chreu ar gyfer pob egwyddor – gall sefydliadau fod yn llawer mwy datblygedig mewn rhai meysydd ond eto yn gynharach yn eu taith gydag eraill. Mae'n iawn bod yn onest ynglŷn â hyn ac i dynnu sylw at ble y gall fod angen cefnogaeth arnoch chi i gyflawni eich uchelgais. Ni fyddwn yn rhoi pwys ar unrhyw egwyddor benodol o fewn ein proses asesu.

Isod gallwch weld y cwestiynau fel y byddant yn y porth ar-lein, gan gynnwys uchafswm y nodau y gallwch eu teipio. Rydym wedi darparu cymaint o fanylion ag y gallwn i'ch galluogi i gynllunio eich cyflwyniad.

## 1. Creadigrwydd

Yn eich atebion, nodwch sut:

- Mae eich **gweledigaeth artistig** gref yn cael ei chreu ar y cyd â'ch cynulleidfaoedd a'ch cymunedau a sut y gellir ei chyfathrebu'n glir â'r cyhoedd.
- Mae **eich rhaglen waith yn uchelgeisiol, yn gyffrous ac yn gynhwysol**. Gallwch fesur llwyddiant o ymateb y cymunedau a'r cynulleidfaoedd rydych chi'n eu gwasanaethu ac rydych chi'n agored i ffyrdd newydd o ddarparu a chyflwyno.
- Rydych chi'n mynd ati i gefnogi **artistiaid a gweithwyr llawrydd, gan barchu'r cyfraniadau maen nhw'n ei wneud at eich gwaith**. Byddwch yn cynnig tegwch a chydraddoldeb i bawb o ran telerau gwaith a chyflogau.
- Rydych chi wedi ymrwymo i **gydweithio**, i ddysgu, i rannu arfer da ac i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sector. Mae gennych y **cysylltiadau** â sefydliadau a rhwydweithiau eraill – boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, y tu mewn i'r celfyddydau neu'r tu allan – i ragori wrth gyflawni, tyfu a datblygu eich gweledigaeth.
- Rydych chi'n **deall eich cynulleidfa a'ch cymunedau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y galw am eich gwaith**. Rydych chi'n archwilio a datblygu eich cynlluniau'n barhaus er mwyn cryfhau'r berthynas bresennol gyda'r grwpiau hynny, wrth ymdrechu i gyrraedd ac ymgysylltu â hyd yn oed mwy o bobl.
- Yn eich gwaith, byddwch yn ystyried **Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Contract Diwylliannol. Rydych hefyd yn ystyried y cyfle am ymateb** i alwadau am y **celfyddydau mewn lleoliadau eraill**, fel y celfyddydau ac iechyd (gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol), y celfyddydau i bobl hŷn, y celfyddydau i bobl iau (gan gynnwys y cwricwlwm newydd yng Nghymru) a chyfleoedd rhyngwladol.
- Rydych chi'n **cyfathrebu'n llwyddiannus** â phobl o'r tu mewn a'r tu allan i'ch sefydliad, er mwyn sicrhau eu bod yn eich deall chi a'ch gwaith. Dylai eich rhyngweithio ag eraill hefyd eu hysbrydoli i gymryd rhan a dylai ddarparu llwybrau a gwybodaeth i'w helpu i gymryd rhan.

### 1 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

### 1 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

Dim mwy na 500 o eiriau

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo

## 2. Ehangu ymgysylltiad

Yn eich atebion, nodwch sut:

- Rydych chi'n cefnogi pobl o grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i **gymryd rhan weithredol a chreadigol wrth benderfynu beth sy'n cyfrif fel diwylliant**, lle mae diwylliant yn digwydd, pwy sy'n ei greu a'i brofi a sut.

- Mae **gennych wreiddiau dwfn yn y cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu gyda'ch gwaith**, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd a'r rhai sy'n parhau i wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu â'r celfyddydau.

- Rydych **wedi ymrwymo i waith gwrth-hiliol a gwrth-ableddiaethus** ac yn cydnabod y llu o rwystrau sy'n dod gydag **amddifadedd economaidd-gymdeithasol** a sut rydych chi'n ystyried y rhain wrth gynllunio eich gwaith. Pa gamau rydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sefydliadol yn eich sefydliad?

- Rydych chi'n ystyried **anghenion a phrofiadau defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr** sy'n fyddar, yn anabl neu'n niwroamrywiol. Pa gamau rydych chi'n eu cymryd i fod yn fwy cynhwysol yn y maes hwn?

- Rydych chi'n ystyried **anghenion gwahanol genedlaethau** ac yn cynnwys ac yn adlewyrchu pobl ifanc, teuluoedd, a'r boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio.

- Mae eich sefydliad yn sicrhau bod **gwahanol safbwyntiau a lleisiau amrywiol yn rhan o'ch penderfyniadau a'ch gwaith**, drwy ymgorffori barn a safbwynt eich staff a'ch bwrdd a'r artistiaid a'r cymunedau rydych chi'n gweithio â nhw.

## 2 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

## 2 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

Dim mwy na 500 o eiriau

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo

## 3. Y Gymraeg

Yn eich atebion, nodwch sut:

- Mae eich sefydliad yn **rhagweithiol ac yn uchelgeisiol yn eu cynlluniau a pholisïau ynglŷn â'r Gymraeg** ar draws bob agwedd o'r sefydliad ac yn eu monitro'n rheolaidd.
- Rydych wedi ymrwymo i **gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** yn y sefydliad ar bob lefel.
- Mae eich **rhaglen waith** yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gysylltu â'r iaith a'i dysgu a'i defnyddio gyda phawb, gan ddatblygu strategaethau creadigol i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol fel iaith leiafrifol mewn cyd-destun byd-eang.
- Rydych yn sicrhau **ffyrdd creadigol o rannu a dathlu stori Cymru a'r Gymraeg**, gan godi ymwybyddiaeth o'i datblygiad o fewn cyd-destun diwylliant cyfoes.
- Rydych chi'n gweithredu'r holl ofynion y mae mesur y Gymraeg yn disgwyl i chi eu gweith-redu ac ennill marc ansawdd **Cynnig Cymraeg** i wella, ehangu a datblygu eich gwasanaethau Cymraeg.
- Rydych yn **cydweithio gyda sefydliadau ac unigolion eraill**, gan sicrhau perchnogaeth greadigol ar y cyd sy'n tynnu ar brofiad a gwybodaeth pobl eraill i ddatblygu'r Gymraeg yn eich sefydliad a'ch cymunedau.
- Rydych yn sicrhau ymrwymiad i ddatblygu a chynnal **llwybrau gyrfa yn y Gymraeg a sgiliau Cymraeg sy'n hwyluso, hyrwyddo a gwella sylfeini'r sector celfyddydol Cymraeg**.
- Rydych chi'n barod i archwilio cyfleoedd **i gysylltu'r Gymraeg ag ieithoedd eraill, ymarfer croestoriadedd**, a mentrau, er enghraifft Degawd o Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig.

### 3 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

### 3 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

Dim mwy na 500 o eiriau

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo

## 4. Cyfiawnder hinsawdd

Dywedwch wrthym sut:

- Byddwch yn **ymgysylltu â'r argyfyngau hinsawdd a natur** ac yn deall pwysigrwydd dull cyf-iawn a theg o **fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn**. Gallai hyn gynnwys ymuno â rhwydweithiau perthnasol er mwyn dysgu sut y gallwch symud ymlaen yn y maes hwn.

- Byddwch wedi ymrwymo i ddatblygu **polisi amgylcheddol a/neu gynllun gweithredu**. Bydd hyn yn cynnwys monitro a deall eich defnydd cyfredol o garbon a sut y gellid ei leihau i gyr-raedd Carbon Sero Net neu uchelgais i wneud hynny.

- Byddwch yn chwarae rhan weithredol wrth **reoli eich adnoddau'n gyfrifol**. Rydych yn ail-ddefnyddio ac yn ailgylchu deunyddiau ac yn osgoi deunyddiau niweidiol ac anghynaladwy. Rydych yn ymgymryd â chaffael moesol.

- Bydd eich cynlluniau'n dangos tystiolaeth o ymrwymiad i ystyried **effaith eich dewisiadau ar ein poblogaeth a'n planed** ac i wneud dewisiadau moesol yn eich holl benderfyniadau, o'r gweithredol i'r creadigol.

- Lle bo'n berthnasol, mae eich **rhaglen artistig** yn cefnogi gwaith ac artistiaid, neu gyfleoedd i greu gwaith, sy'n dod ag uchelgais i wella ein hymddygiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r amgylchedd.

- Ceir **cyfrifoldeb ar lefel staff a'r bwrdd** am y camau hyn a thrafodir effaith amgylcheddol eich gwaith ar lefel Bwrdd.

- Os ydych chi'n gweithio'n rhyngwladol, rydych chi wedi ymrwymo i wneud hynny gan ym-gorffori dull **moesol sy'n cael ei arwain gan werthoedd**.

### 4 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

### 4 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

Dim mwy na 500 o eiriau

Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo

## 5. Meithrin talent

Yn eich atebion, nodwch sut:

- Rydych yn buddsoddi yn **natblygiad pobl yn eich sefydliad – eich bwrdd, eich staff a'r ar-tistiaid llawrydd**. Mae gennych ddull rhagweithiol o gynllunio olyniaeth a recriwtio cynhwysol.

- Rydych yn **sefydliad sy'n dysgu**, ac wedi ymrwymo i fyfyrio a gwerthuso. Rydych chi'n neill-tuo amser ac adnoddau i wneud hyn.

- Rydych wedi ymrwymo i ddatblygu **llwybrau talent** newydd a chyfredol ar gyfer eich cel-fyddydau neu eich maes/meysydd creadigol. Yn unol â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Lles-iant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydych yn ystyried eich cyfrifoldeb yn yr hirdymor, o feithrin pobl ifanc fel arweinwyr y dyfodol, i gefnogaeth am y blynyddoedd diweddarach gyda chyfleoedd dysgu a datblygu gydol oes.

- Rydych yn gweithredu o fewn ethos **cynhwysol a chroesawgar** wrth weithio gydag artistiaid ac ymarferwyr creadigol, ni waeth beth fo'u hoedran, eu cefndir, eu hiaith, eu statws, ble y ganwyd nhw neu ar ba gam y maent yn eu gyrfa. Rydych chi'n annog yn weithredol dîm sy'n siarad Cymraeg ac sy'n amrywiol.

- Rydych **yn mynd ati i ymgynghori a rhwydweithio'n weithredol** yn eich sector ac ar draws y celfyddydau er mwyn deall anghenion y presennol a'r dyfodol, yn ogystal â deall a mynd i'r afael â rhwystrau posibl a rhwystrau go iawn i gael mynediad at ddatblygiad creadigol a phroffesiynol.

- Rydych wedi ymrwymo i **waith teg a thâl teg a lles** y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys talu am amser a dreulir yn dysgu, yn ogystal â'r bobl rydych chi'n ym-gynghori â nhw

### 5 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

**Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad**

**Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad**

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

| |
|---|
| |

### 5 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

**Dim mwy na 500 o eiriau**

**Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo**

## 6. Trawsnewid

Yn eich atebion, nodwch sut:

- Mae gennych **lywodraethu da**, gyda bwrdd gweithredol (neu gorff cyffelyb) sydd wedi ym-gysylltu â'r gwaith, sydd o'r maint iawn a'r sgiliau priodol, ac sydd wedi'i recriwtio yn unol ag anghenion y sefydliad. **Arweinyddiaeth dda yw arweinyddiaeth amrywiol** a ddylai adle-wyrchu'r cymunedau rydych chi am ymgysylltu â nhw yn eich gwaith.
- Rydych wedi ymrwymo i **ffordd iach o weithio** a diwylliant cadarnhaol sy'n ystyried lles eich pobl.
- Mae eich dull gweithredu yn **berthnasol ac yn ymatebol**, gan ddangos yn glir agwedd agored a chynhwysol at eich penderfyniadau, pa leisiau sy'n cael eu clywed a'r grym sydd ganddynt o ran llywio pethau.
- Yn eich swyddogaeth fel arweinwyr y sector, rydych chi'n gweithredu fel **cydweithredwyr** a chysylltwyr. Rydych yn cefnogi ac yn gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid unigol, gweithwyr llawrydd a sefydliadau eraill yn y celfyddydau a thu hwnt, ar draws eich cymuned-au, yn lleol a lle bo hynny'n berthnasol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Rydych wedi ymrwymo i'r lefel uchaf **o atebolrwydd** gyda strwythurau llywodraethu a sefyd-liadol cadarn a gwydn sy'n gwireddu cynlluniau, mentro a rheoli peryglon a nodi meysydd lle mae angen cymorth a chefnogaeth.
- Rydych yn **agored am eich cynlluniau a'ch cynnydd** o ran y cynlluniau, rydych yn cymryd ac yn rheoli peryglon yn gyfrifol ac yn briodol, ac rydych yn nodi'r meysydd sydd angen cymorth a chefnogaeth wrth iddynt godi ac yn cyfathrebu amdanynt.
- Byddwch yn cofleidio **arloesedd**. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu twf neu greu rhywbeth newydd er mwyn creu rhywbeth newydd ond mae'n golygu eich bod yn agored i archwilio ffyrdd gwahanol o weithio'n well.
- Rydych yn edrych i **wneud y mwyaf o'r gwerth a gewch o arian cyhoeddus** drwy gyfleoedd i ennill incwm, a thrwy arallgyfeirio a thyfu incwm o ystod o ffynonellau i gefnogi eich cynaliadwyedd yn y dyfodol.

### 6 a) Eich potensial

Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni (y canlyniad) a pha weithgarwch y byddwch chi'n ei gynnal ym mhob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd (yr allbynnau)?

**Dim mwy na 500 o eiriau fesul canlyniad**

**Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo fesul canlyniad**

Canlyniad 1 (ac allbynnau blynyddol)

Canlyniad 2 (ac allbynnau blynyddol)

Canlyniad 3 (ac allbynnau blynyddol)

### 6 b) Eich tystiolaeth

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar i ddangos eich bod wedi ymrwymo i'r gwaith hwn a bod gennych y potensial i gyflawni eich allbynnau a'ch canlyniad?

**Dim mwy na 500 o eiriau**

**Dim mwy na pum munud o amser ar gyfer sain/fideo**

# 7. Eich cynllun busnes

Gofynnwn i chi gyflwyno cynllun busnes fel 'dogfen ategol'. Mae hyn yn golygu, wrth ateb y cwestiynau yn y cais, y gallwch gyfeirio at dudalennau yn y cynllun busnes i roi mwy o fanylion. Fel y nodwyd uchod, ni fyddwn yn asesu nac yn sgorio'r cynllun busnes ar wahân.

Nid oes angen i chi greu dogfen yn benodol i ni; gallwch ddefnyddio dogfen sy'n bodoli'n barod. Wrth sôn am gynllun busnes, rydym yn cydnabod bod sefydliadau'n defnyddio termau gwahanol, felly rydym yn golygu'r prif gynllun corfforaethol neu strategol y mae eich sefydliad yn ei ddefnyddio i lywio eich gwaith.

Fan lleiaf, dylai eich cynllun busnes gwmpasu'r blynyddoedd treth 2024/25, 2025/26 a 2026/27. Mae canllawiau amrywiol ar gael ar-lein ar gyfer sut i strwythuro cynllun busnes. Y peth pwysicaf yw bod eich cynllun busnes yn ddogfen fyw sy'n cael ei defnyddio gan eich sefydliad i gynllunio a myfyrio, a'i bod yn cael ei hailystyried a'i diweddaru'n rheolaidd gan eich Bwrdd.

Rydym ni'n gwybod bod pethau'n newid. Bydd eich cynllun busnes yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael adeg ei lunio a bydd ganddo'r potensial i ddatblygu wrth i amgylchiadau newid. Hefyd *eich dogfen chi* yw'r cynllun busnes gyda lefel o fanylion sy'n addas i faint a strwythur eich sefydliad. Dylai amlinellu sut rydych chi'n gweithio a sut rydych chi'n cynllunio lawn gymaint â'r gwaith y byddwch chi'n ei wneud.

Sylwer: Hyd yn oed os ydych chi'n ateb cwestiynau'r cais drwy fideo neu sain, bydd angen i'ch cynllun busnes fod yn ddogfen.

# 8. Eich cyllideb

Dylech hefyd gyflwyno dogfen gyllideb ar wahân i gefnogi eich cynllun busnes (hyd yn oed os yw'r prif gyllidebau yn y cynllun yn barod).

Mae'r templed y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio fan hyn.

Rydym yn darparu templed i sicrhau cysondeb ar draws pob cais.

Mae'n bwysig i ni ddeall sut rydych chi'n bwriadu gweithredu'n ariannol ar draws tair blynedd eich cynllun busnes. Fodd bynnag, rydym yn deall, yn enwedig ar adegau o newid, nad yw ffigyrau'r gyllideb wastad yn cyd-fynd â'r hyn rydych chi'n ei wario mewn gwirionedd. Felly, dylech gyllidebu mewn ffordd sy'n seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i chi ar hyn o bryd a dylech fod yn barod i ystwytho eich cyllidebau yn y misoedd a'r blynyddoedd a ddaw wrth i'ch cylch cynllunio fynd yn ei flaen.

Dylai eich cyllideb:

- Cwmpasu'r blynyddoedd treth 2023/24 (fel gwaelodlin, fel y gallwn gymharu) 2024/25, 25/26 a 26/27 (i gyd-fynd â'ch cynllun busnes).
- Cynnwys yn amlwg yr arian yr ydych yn gofyn amdano gan Gyngor y Celfyddydau mewn llinell glir ac ar wahân o'r gyllideb. Gwiriwch fod hyn yn cyd-fynd â'r ffigyrau yn eich ffurflen gais.
- Bod y gweithgareddau yn cyd-fynd â'r hyn sydd yn eich cynllun busnes. Gallwch atodi nodiadau i gynorthwyo croesgyfeirio at adrannau penodol yn y cynllun busnes.
- Peidio â chymryd yn ganiataol bod gennym wybodaeth flaenorol am eich sefydliad. Nid oes angen i chi esbonio pob llinell, ond dylem ni allu gweld sut rydych wedi cyrraedd ffigyrau allweddol yn y gyllideb. Bydd hyn yn caniatáu inni asesu pa mor briodol yw'r swm yn eich cais.
- Esbonio unrhyw amrywiadau mewn llinellau yn y gyllideb rhwng blynyddoedd. Heb hyn, fedrwn ni ddim gweld sut mae newidiadau yn y gweithgarwch, er enghraifft, wedi effeithio ar eich incwm neu'ch costau.
- Cynnwys nodiadau clir (naill ai fel colofn neu ddalen ar wahân sy'n croesgyfeirio) i gynorthwyo ein dealltwriaeth o'r uchod neu unrhyw agweddau eraill sydd angen rhagor o fanylion amdanynt.
- Osgoi rhoi cynnydd canrannol cyffredinol ar draws llinellau'r gyllideb flwyddyn ar flwyddyn; yn hytrach defnyddiwch ffigyrau gwirioneddol sy'n adlewyrchu gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio.

## 9. Gwe-ddolenni i ddeunyddiau ategol

Bydd cyfle i chi ddarparu hyd at dair we-ddolen at ddeunyddiau ategol i gefnogi eich cais. Gallai'r rhain fod yn ddolenni at enghreifftiau o'ch gwaith, neu adolygiadau o'ch gwaith.

Ni fydd y rhain yn cael eu sgorio na'u hasesu a dim ond fel cyfeiriadau at wella a chefnogi atebion eich cais y dylid eu defnyddio. Fel yn achos y cynllun busnes, eich cyfrifoldeb chi yw cynnwys cyfeiriad clir a phenodol at we-dudalen neu adran o we-dudalen. Byddwch mor gysáct â phosibl yn eich cyfeiriadau.

## 10. Sut y byddwn yn asesu eich cais

Ar ddechrau pob asesiad, bydd adroddiad asesu unigol yn cael ei ddrafftio a chaiff ei ddiweddaru yn ystod pob cam o'r asesiad nes i ni wneud penderfyniadau terfynol.

Prif sail yr asesiad fydd yr atebion a rowch i bob cwestiwn a'r gyllideb rydych yn ei darparu, gyda chefnogaeth eich cynllun busnes.

Gallwn greu trawsgrifiad neu gyfieithiad o'ch cais a bydd gan unrhyw un wedyn sy'n rhan o'r asesiad neu'r broses benderfynu fodd i gael mynediad at y cais gwreiddiol a'r cyfieithiad neu'r trawsgrifiad ohono.

Fel y nodwyd uchod, ni fydd y cynllun busnes na'r gwe-ddolenni yn cael eu hasesu'n annibynnol.

Rydym ni wedi ymrwymo i drin pob cais yn deg, boed y cais yn Gymraeg, yn Saesneg neu BSL neu mewn fformat ysgrifenedig, fideo neu sain.

Ar ôl gwirio cymhwystra adeg y cam cyflwyno, bydd **proses asesu pedwar cam**:

**Cam 1:** Asesiad Cais yn Unigol.

Ar ôl archwiliadau cymhwystra pellach, bydd y cais yn cael ei adolygu gan un o swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn asesu eich atebion yn ôl y cwestiynau yn y cais gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar ein chwe egwyddor.

**Cam 2:** Asesiad Grŵp.

Yna bydd y cais yn cael ei anfon at Swyddog a grŵp o Gymdeithion gydag arbenigedd i ystyried, i adolygu ac i gymedroli adolygiad y Swyddog yn ystod y cam cyntaf. Bydd hyn yn caniatáu i nifer o bobl sydd ag arbenigedd a phrofiad gwahanol ystyried y cais.

Ar ôl y cam hwn, bydd yr adroddiad asesu unigol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu trafodaethau'r cyfarfod.

**Cam 3:** Sicrhau Ansawdd a Chydbwyso.

Yna bydd yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu gan grŵp sydd wedi'i ffurfio o'n Huwch Dîm Arwain a chadeiryddion y grwpiau ail gam; gyda'i gilydd, byddant yn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor.

Yn ystod y cam hwn y bydd y ffactorau cydbwyso yn cael eu hystyried.

**Cam 4:** Adolygiad gan y Cyngor a Chyfarfod Penderfynu.

Bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau terfynol ar lwyddiant neu aflwyddiant pob cais.

**Noder: swm cyfyngedig o arian sydd ar gael a bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Efallai na fydd y Cyngor yn dyfarnu'r swm llawn y gofynnwch amdano. Mae hyn yn digwydd gyda'n grantiau eraill hefyd.**

# 11. Hysbysiad o benderfyniadau

Bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau terfynol yn ei gyfarfod ym mis Medi a byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd erbyn diwedd y mis hwnnw drwy e-bost. Byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt rydych chi wedi'u rhoi yn eich cyfrif ar-lein, felly mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad a'n rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw. Os yw'r cynnig ariannol sy'n cael ei wneud yn is na swm y cais, byddwn yn egluro pam.

O'r adeg honno bydd gennych hefyd 21 diwrnod i wneud apêl os credwch fod sail dros apelio.

Bydd unrhyw gynnig ariannol a wneir yn ystod y cam hwn yn ddangosol yn unig.

Daw cadarnhad o'r swm ariannol ar ôl i'r broses apelio gael ei chwblhau ym mis Rhagfyr.

**Sylwer:** Bydd unrhyw gynnig sy'n cael ei wneud yn dibynnu ar yr arian a gaiff Cyngor Celfyddydau Cymru gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei gadarnhau ar gyfer hyd at 2025/26. Dim ond ar ôl i ni gael gwybod gan Lywodraeth Cymru faint o arian a gawn y gallwn wedyn gadarnhau faint o arian y bydd sefydliadau yn ei dderbyn.

# 12. Beth sy'n digwydd os yw eich cais yn llwyddiannus?

Byddwch yn cael gwybod ym mis Medi os yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus a byddwch yn derbyn cynnig dangosol.

## Cytundebau ariannu

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadarnhau'r cynnig am arian ym mis Rhagfyr. Ar ôl hyn, byddwn yn cwrdd â chi i drafod ein penderfyniad a'ch cynlluniau ar sail y cynnig a wnaethom (gan y gallai fod yn is na'ch cais). Byddwn yn archwilio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i'ch cefnogi yn eich cynlluniau, gallwn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych a byddwn yn mynd drwy'r gofynion monitro.

Wedyn byddwn yn dechrau'r broses o **greu cytundeb ariannu gyda chi**. Bydd y ddogfen hon yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich cais a bydd pawb yn cytuno arno a bydd y ddwy ochr yn ei lofnodi. Bydd yn cynnwys y canlyniadau a'r allbynnau yn erbyn ein chwe egwyddor i'w cyflawni y flwyddyn honno; dyma fydd eich targedau. Byddwn yn disgwyl i'ch bwrdd adolygu cynnydd yn ôl eich targedau ym mhob cyfarfod.

## Cyhoeddi eich targedau a chynnydd

Bydd **gofyn i chi gyhoeddi eich targedau a rhannu eich cynnydd yn ôl y targedau ddwywaith y flwyddyn**. Rydym am i'r cytundeb ariannu gynrychioli contract â'ch cymunedau a hoffem i chi fod mor atebol iddyn nhw ag yr ydych i ni. Gallai hyn olygu bod eich cytundeb ariannu ar eich gwefan ac yn cyhoeddi diweddariad ymhen chwe mis ac ar ddiwedd y flwyddyn. Neu efallai y byddwch yn rhannu eich cynnydd mewn fformat arall, fel cyhoeddi papurau'r bwrdd neu adroddiadau am eich cynllun gweithredol. Y peth pwysig yw eich bod yn gwneud yn gyhoeddus beth rydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'r arian rydych chi'n ei dderbyn ac yna'n rhannu'r hyn rydych chi wedi'i wneud a'i gyflawni.

## Adolygiadau a monitro blynyddol

Bydd y cytundeb ariannu yn cael ei **adolygu bob blwyddyn**. Byddwch yn cwrdd â Swyddog Cyngor y Celfyddydau am sgwrs i asesu eich cynnydd yn ôl eich targedau. Os credwn nad ydych yn cyflawni eich targedau, gallwn weithredu, megis lleihau neu dynnu arian yn ôl neu roi mesurau amodol pellach arnoch. Byddwn yn ystyried unrhyw resymau sydd gennych dros beidio â gwireddu'r targedau cyn gwneud ein penderfyniad.

Wrth **wirio yn ystod blwyddyn dau**, byddwn hefyd yn penderfynu a allwn roi cyfnod pellach o hyd at dair blynedd o arian i chi, neu os bydd y arian yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3.

## Cydnabod a hyrwyddo

Bydd y cytundeb ariannu yn cynnwys ymrwymiad i **gydnabod eich bod yn derbyn arian cyhoeddus**. Byddwn hefyd yn disgwyl i chi **hyrwyddo sut mae eich arian yn gwneud gwahaniaeth**. Rydym am i bawb rydym yn ei ariannu fod yn eiriol dros y celfyddydau. Fel rhan o'n symudiad tuag at atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, rydym am i chi ddefnyddio'r data a'r storïau am y gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud gyda'n cefnogaeth ariannol i adrodd stori bwerus am werth y celfyddydau.

## Monitro gofynion

Fan lleiaf, bydd angen i bob sefydliad hefyd ddarparu'r canlynol yn ystod eu cyfnod ariannu:

- Cyllideb Flynyddol
- Copi o'ch Cynllun Busnes
- Copi o'ch cyfrifon diwedd blwyddyn
- Diweddariad ariannol chwarterol – bydd lefel y manylion yn dibynnu ar eich sefydliad; byddwn yn trafod hyn gyda chi fel rhan o'r trafodaethau am eich cytundeb ariannu
- Llenwi'r arolwg a'i ddychwelyd. Byddwn yn darparu hyn bob chwe mis a bydd yn cynnwys gwybodaeth am eich cynulleidfa, eich cyfranogwyr, eich staff, eich bwrdd a'ch cyfathrebu. Rydym ni'n edrych i deilwra hyn i wahanol sefydliadau
- Tystiolaeth o gyhoeddi adroddiadau cynnydd bob chwe mis, fel dolen i wefan.

Amod o gael arian fydd ein bod yn derbyn y dogfennau hyn gennych. Os nad ydych yn gallu cyflenwi'r wybodaeth a restrir uchod, yna efallai y bydd angen i ni ail-ystyried eich taliadau grant.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall ac i adolygu eich cynnydd yn erbyn y targedau a gyhoeddwyd gennych o ran canlyniadau a'ch allbynnau disgwyliedig ac effaith ehangach ein harian. Byddwn hefyd yn ei ddefnyddio i adrodd i'n Cyngor ac i fod yn eiriol dros y celfyddydau.

# 13. Beth sy'n digwydd os nad yw eich cais yn llwyddiannus?

Byddwch yn cael gwybod os nad yw eich cais yn llwyddiannus ym mis Medi. Byddwn yn trefnu cyfarfod wedyn i esbonio ein penderfyniad a, lle bo hynny'n berthnasol, i drafod ffyrdd eraill y gallem gefnogi eich gwaith.

*Os ydych yn teimlo bod gennych sail i apelio, mae'r broses apelio i'w gweld yma a bydd gennych 21 diwrnod i wneud eich apêl.*

Hyd yn oed yn yr amgylchiadau siomedig ac anodd hyn, byddwn yn gweithio er mwyn gwireddu canlyniadau adeiladol a'n nod bydd rhoi adborth a chyngor a fydd yn ddefnyddiol i chi wrth symud ymlaen gyda'ch cynlluniau.

Os ydych chi'n sefydliad sydd eisoes ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, byddwn yn trafod effaith y penderfyniad ar eich sefydliad a'r opsiynau sydd ar gael i'ch helpu i symud at gam nesaf eich taith fel sefydliad.

Rydym yn ystyried rhoi 'cymorth pontio' i helpu sefydliadau aflwyddiannus o Bortffolio Celfyddydol Cymru i reoli'r cam hwn a allai gynnwys gweithio tuag at weithredu mewn ffordd wahanol neu leihau'r sefydliad neu roi'r gorau i weithio. Drwy gais y bydd y gefnogaeth hon ar gael ac nid oes gwarant o'i chael ac mae'n debyg o fod yn gyfrannol â lefel eich arian yn y Portffolio yn ystod 2023/24. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Byddwn yn gweithio'n sensitif ac yn broffesiynol ac yn gwneud ein gorau i leihau'r effaith arnoch chi, eich cymuned a'r sector.

# Rhan Tri:
# Gwybodaeth hanfodol

Yma mae gwybodaeth y gallech gyfeirio ati yn ystod ac ar ôl y broses ymgeisio. Mae'n cynnwys rhestr wirio ymgeisio, esboniadau o'n termau a'n strwythurau, gwybodaeth am ein proses apelio a sut i gysylltu â ni.

# 1. Y rhestr wirio ymgeisio

Dyma restr wirio gyflym o bopeth sydd ei angen er mwyn i chi ymgeisio ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi. Mae angen i chi gyflwyno:

1. Dogfen lywodraethol gymwys, gyfredol sydd wedi'i llofnodi. Os yw eich dogfennau'n gyfredol ar ein porth, nid oes angen i chi eu cyflwyno eto. Gwiriwch yr adran dogfennau llywodraethol er mwyn cadarnhau eu bod yn gyfredol cyn ymgeisio.
2. Yr holl wybodaeth sylfaenol am eich sefydliad ar y porth.
3. Eich ymatebion i gwestiynau'r cais Adolygiad Buddsoddi ar y porth – naill ai'n ysgrifenedig neu'n gyflwyniadau fideo neu sain.
4. Eich cynllun busnes ategol.
5. Hyd at dair we-ddolen at ddeunydd ategol.
6. Eich cyllidebau cysylltiedig ar gyfer y blynyddoedd treth 2023/24, 2024/25, 2025/26 a 2026/27.

## 2. Egluro rhai o'n termau a'n strwythurau

Dyma esboniad o'r bobl fydd yn chwarae rhan yn yr Adolygiad Buddsoddi. Byddant i gyd yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn ein dogfen Rheoli Proses Ddiduedd.

**Y Cyngor** – Dyma ein corff llywodraethu sydd wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y penderfyniadau a wneir yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn ac yn dyrannu'r swm terfynol o arian. Mwy o wybodaeth fan hyn.

**Swyddogion** – Dyma weithwyr Cyngor y Celfyddydau, gan gynnwys Swyddogion Datblygu a Rheolwyr Portffolio sydd ag ystod o arbenigedd a phrofiad ac a fydd yn rhan o'r broses asesu. Byddant yn cael eu hyfforddi cyn y broses asesu. Fel rhan o ddatblygiad ein sefydliad, maen nhw hefyd yn cael hyfforddiant parhaus am ragfarn a chydraddoldeb. Byddant hefyd yn ymwneud â monitro a chefnogi sefydliadau'n barhaus ar ôl i ni wneud ein penderfyniadau.

**Yr Uwch Dîm Arwain** – Bydd pedwar aelod o'n Huwch Dîm Arwain gan gynnwys ein Prif Weithredwr yn rhan o'r broses asesu a bydd ein Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau'n annibynnol er mwyn medru goruchwylio'r broses apelio. Byddan nhw'n cael eu cefnogi gan ein Hasiant er Newid ac Ysgogydd y Gymraeg.

**Cymdeithion** – Ar ôl adolygu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda Chymdeithion yn 2021, maent nhw bellach yn ffordd allweddol i ni gynnwys gwahanol safbwyntiau ac arbenigedd yn ein ffordd o weithio. Yn dilyn galwad agored byddwn yn recriwtio Cymdeithion i weithio gyda ni ar yr Adolygiad Buddsoddi tua'r un adeg y byddwn yn cyhoeddi'r ddogfennaeth hon. Rhaid i Gymdeithion ddatgan eu buddiannau yn yr un ffordd ag y mae staff yn gorfod gwneud hynny. Byddant hefyd yn cael eu hyfforddi cyn y broses asesu.

# 3. Gwneud apêl

Rydym yn disgwyl i'n proses o wneud penderfyniadau fod o'r safon uchaf. Fodd bynnag, os ydych am apelio yn erbyn ein penderfyniad, rydym wedi sefydlu proses annibynnol ar gyfer ystyried apeliadau. Dim ond apeliadau a wneir ar sail tegwch y broses fydd yn cael eu hystyried.

Mae ein dogfen *Adolygiad Buddsoddi 2023: Gwneud Apêl* yn esbonio eich hawl i apelio, a'r weithdrefn gysylltiedig sydd ar gael i unrhyw sefydliad sy'n anfodlon ar ein penderfyniad ariannu. Dim ond yng nghyswllt Adolygiad Buddsoddi 2023 y mae'r weithdrefn apelio hon yn berthnasol. Os oes gennych gwynion am unrhyw fater arall, cyfeiriwch at y gweithdrefnau arferol a nodir yn ein gweithdrefn gwynion.

## 4. Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Rydym wedi ymrwymo i wneud y broses Adolygiad Buddsoddi mor agored a thryloyw â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym yn gwario arian cyhoeddus a sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau ariannu. Ein nod, felly, yw cyhoeddi canllawiau clir am y broses ymgeisio ac asesu yn y ddogfen hon a chanlyniadau ein penderfyniadau ar ein gwefan, heblaw am wybodaeth sydd yn wirioneddol gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif.

Rydym yn awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith felly, efallai y bydd yn rhaid i ni ddarparu dogfennau a gwybodaeth o'ch cais a'n hasesiad ohono i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am eu gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Efallai na fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n dod o dan un neu fwy o'r eithriadau yn y Ddeddf. Mae ein polisi ar Ryddid Gwybodaeth ar gael ar ein gwefan. Gweler y wefan Rhyddid Gwybodaeth am wybodaeth ynghylch rhyddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r eithriadau.

Ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth am geisiadau yn ystod y cyfnod asesu ac apelio, oherwydd y gall hynny ymyrryd â'r broses o wneud penderfyniadau ac apelio.

Mae diogelu preifatrwydd a data personol ein cleientiaid a'n hymwelwyr o'r pwys mwyaf i ni. Bydd unrhyw ddata personol sy'n cael ei dderbyn a'i brosesu fel rhan o'r Adolygiad Buddsoddi yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o fanylion am ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn, yn enwedig ein trefniadau ar gyfer trin ac asesu ceisiadau am arian, i'w gweld yn ein Polisi Preifatrwydd cyhoeddedig.

## 5. Cadw mewn cysylltiad

Cyn belled ag y bo modd, byddwn yn parhau i gysylltu fel arfer â sefydliadau a'r sector ehangach drwy gydol yr Adolygiad Buddsoddi.

Fodd bynnag, mae'n bwysig o ran gonestrwydd y broses bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg ac nad oes unrhyw un yn cael ei roi, neu ei weld yn cael ei roi, mewn sefyllfa o fod â mantais annheg. Fel yr ydym wedi nodi, bydd cyfnod pan fyddwn yn cynnig 'sgyrsiau tywys' i ymgeiswyr posib, ond ni fyddwn yn gallu cynnig adborth ar gynigion na rhoi cyngor pwrpasol tra bo'r broses ymgeisio yn parhau.

Byddwn yn parhau i drafod ac i gyfathrebu â chi ar draws pob maes gwaith arall, gan gynnwys ceisiadau Loteri. Os ydych chi'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru ar hyn o bryd, byddwch yn gallu cysylltu â'ch prif swyddog fel arfer, ond ni fyddant yn gallu rhoi cyngor am eich cais Adolygiad Buddsoddi y tu hwnt i'r wybodaeth yr ydym wedi'i chyhoeddi.

# 6. Cysylltu â ni

Rydym wedi ceisio gwneud y broses ymgeisio a'r canllawiau mor syml a chlir â phosibl. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r adran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan, felly ewch yma i weld a yw eich cwestiwn wedi'i ateb yn barod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o hyd, cysylltwch â ni.

Os oes gennych ymholiad technegol wrth ymgeisio, cysylltwch â'n Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bostio grantiau@celf.cymru neu ffoniwch 03301 242733 gan ddewis opsiwn 1, yna opsiwn 1.

Os oes gennych chi gwestiwn ynghylch ymgeisio, cysylltwch â ni cyn 3 Mawrth:

Ffôn: 03301 242733

Ebost: adolygiadbuddsoddi@celf.cymru

Oriau: 9am-5pm Dydd Llun-Dydd Iau, 9am-4.30pm Dydd Gwener

Gwefan: www.arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts